

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Hydref 2012

Rhif 426

50c

Annerch Pencampwyr Byd

Cafodd Lois Evans, Erw Las, sy'n athrawes yn Ysgol Llanfechell, wahoddiad i annerch cynulleidfa arbennig iawn yn Llundain yn sgil y gwaith a wnaeth ar y Gemau Olympaidd gyda rai o ddisgyblion yr ysgol. Llongyfarchiadau gwresog i Lois a dyma'r hanes yn ei geiriau ei hun.




Dyma Lois gyda Jonathan Edwards, a fu'n bencampwr y naid driphlyg ac sydd bellach yn sylwebu a chyflwyno.

Fy mhrofiad Olympaidd

Ar 4 Hydref cefais y profiad o roi araith o flaen 400 o bobl yn Llundain, gan gynnwys yr Arglwydd Seb Coe, Jonathan Edwards a rhai aelodau o "Tîm GB". Yn gyntaf, roedd pawb yn cael brecwast yn Mermaid House, ac yna cefais y cyfle i siarad yn anffurfiol gyda nhw am yr hyn yr oeddwn i a'r plant yn yr ysgol wedi ei wneud ar gyfer y Gemau Olympaidd. Siaradais hefyd am glybiau chwaraeon lleol a beth fydd angen ei wneud i sicrhau bod y "Gwerthoedd Olympaidd" yn parhau. Yna, roedd pawb yn mynd i'r theatr (yn yr un adeilad) ac yn y fan honno yr oeddwn i yn rhoi fy araith. Ar ôl hynny, roedd rhaid i bawb fynd i ystafell arall er mwyn cael gweld esiamplo o waith y plant a chael cyfle i fy holi.

Cefais y cyfle i siarad gyda Jessica Ennis, Ellie Simmonds, Chris Hoy, Kath Grainger, Nicola Adams, Natasha Baker a Tom Daley, ac fe ddywedodd Chris Hoy ei fod yn hoff iawn o'r hyn yr oedd wedi ei weld gan y plant. Roedd pobl eraill megis Nick Fuller AS yno hefyd ac fe ddywedodd yntau fod y gwaith yn "anhygoel". Yna, roedd yr athletwyr a rhai o'r bobl oedd yno, gan gynnwys fy hun, yn cael ein symud i ystafell a oedd yn wynebu'r afon Thames i gael bwyd cyn gorffen. Mae'r profiad wedi bod yn agoriad llygaid ac yn fuddiol iawn i mi ac fe fydd llawer mwy o ymweliadau fel hyn i ddod.

Cyfarfod Gwobrwyo Ysgol Dyffryn Ogwen 2012



Enillwyr Ysgoloriaeth Dafydd Orwig, Gwion Williams a Rhiannon O'Marah gyda Mrs Beryl Orwig.

Cynhaliwyd Cyfarfod Gwobrwyo blynyddol Ysgol Dyffryn Ogwen nos Fercher, Medi 19. Mae'r cyfarfod yn gyfle i ddathlu llwyddiannau ein disgyblion a'n pobl ifanc yn academiaidd, yn allgyrsiol ac o ran ymdrech gyda gwaith ysgol.

Y gŵr gwadd eleni oedd John Hardy, darlledwr sydd yn gyn-ddisgybl yr ysgol. Cafwyd anerchiad difyr a pherthnasol ganddo, braf oedd clywed mor falch mae John o'i wreiddiau yn Nyffryn Ogwen.

Roedd hi'n bleser unwaith eto cydnabod llwyddiant ein disgyblion. Cafwyd canlyniadau TGAU ardderchog eleni - y gorau erioed yn hanes yr ysgol - gyda dros 95% o ddisgyblion blwyddyn 11 llynedd yn ennill yr hyn sy'n cyfateb i 5 gradd A*-C. Roedd y rhain yn ganlyniadau syfrdanol. Un nodwedd arbennig o'r canlyniadau lefel A eleni oedd bod pob un disgybl wedi cael mynediad i'r cyrsiau o'u dewis. Ni fu'n rhaid i'r un disgybl o Ysgol Dyffryn Ogwen fynd drwy'r system 'clirio' i gael eu derbyn i brifysgol.

Manylion pellach ar y dudalen ysgolion.

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts	☎ 600965
hylaw@btinternet.com	
Ieuan Wyn	☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk	
Lowri Roberts	☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com	
Dewi Llewelyn Siôn	☎ 600274
dewision@btinternet.com	
Fiona Cadwaladr Owen	☎ 601592
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk	
Siân Esmor Rees	☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com	
Neville Hughes	☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com	
Dewi A Morgan	☎ 602440
dewimorgan@fsmail.net	
Walter W Williams	☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk	

SWYDDOGION

Cadeirydd:

André Lomozik, Zakopane,
7 Rhos-y-Coed, Bethesda, Bangor,
Gwynedd LL57 3NW ☎ 602117

Trefnydd Hysbysebion:

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:

Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:

Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,
Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.com

Y Llais Drwy'r Post:

Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygwyd y rhifyn hwn gan Fiona Cadwaladr Owen.

Golygyddion mis Tachwedd fydd Lowri Roberts, 8 Pen-y-ffriddoedd, Tregarth LL57 4NY (01248 600490) l.roberts11@btinternet.com a Walter W. Williams, 14 Erw Las, Bethesda LL57 3NN (01248 601167) walteramenai@yahoo.co.uk

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 31 Hydref, os gwelwch yn dda. Plygu nos lau, 15 Tachwedd yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru

DYDDIADUR Y DYFFRYN

Mis Hydref

- 19/20 Sioe Glybiau Theatr Bara Caws – “Un bach arall eto...”. Clwb Rygbi Bethesda am 7.30.
- 20 Bore Coffi Capel Jerusalem. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00
- 24 Cangen Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.
- 25 Merched y Wawr Bethesda. Stondinau Cynnyrch Lleol. Cefnfaes am 7.00
- 27 Bore Coffi Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen. 10.00 -12.00
- 30 Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00

Mis Tachwedd

- 03 Sefydliad y Merched Carneddi. Cyfarfod Blynnyddol a Swper Cynhaef. Cefnfaes am 7.00
- 03 Bore Coffi Caban Gerlan. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00
- 05 Merched y Wawr Tregarth. Gwaith Llaw / Anrhegion. Festri Shiloh am 7.00
- 06 NSPCC. Cyfarfod Adran Bethesda. Cefnfaes am 2.15.
- 07 Cymd. Lenyddol Gofalaeth Bro Dyffryn Ogwen. Bethlehem Talybont am 7.00
- 09 Ocsiwn Addewidion Plaid Cymru. Clwb Rygbi Bethesda am 7.00
- 10 Bore Coffi Eglwys Crist Glanogwen. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00
- 10 Marchnad Cynnyrch Lleol Ogwen. Festri Fawr Capel Jerusalem 10.00 – 2.00
- 12 Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen. Festri Jerusalem am 7.00
- 16 Bingo. Canolfan Glasinfryn am 7.30. Elw at gronfa merch fach y postmon lleol sydd yn Ysbyty Alderhey.
- 16 Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen am 6.30.
- 17 Eisteddfod Dyffryn Ogwen (Y Plant). Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen 10.00 yp.
- 17 Bore Coffi NSPCC. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00
- 21 Cyfarfod Blynnyddol Llais Ogwan. Cefnfaes am 7.30.
- 24 Bore Coffi Llais Ogwan. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00
- 27 Te Nadolig at Eglwys y Gelli. Canolfan Tregarth. 2.00 – 4.00 yp.

Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar gasét bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan

Cysodwyd gan **Tasg**,
Gorffwysfa, Sling, Tregarth
LL57 4RJ ☎ 07902 362 213
post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
☎ 01248 601669

Rhoddion i'r Llais

- £10.00** Mrs Elizabeth Evans (Bing),
12 Rhos y Coed, Bethesda
- £ 5.00** Mrs J.B. Williams,
Porthaethwy
- £ 4.50** Dienw, Bethesda
- £ 5.00** Er cof am mam, Rose Pritchard, a fu farw 8 Hydref 1991.
“Dal mae hiraeth yn ein calon.”
David, Helen, Rhes Elfed, Bethesda.

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Mis Hydref

- £30.00 (187)** Mrs Beryl Orwig,
Braichmelyn.
- £20.00 (141)** Mrs Iona Wyn Jones, 16
Pentref Llandygái.
- £10.00 (38)** NBeryl Wynne Williams,
Talgarnedd, Bethesda.
- £5.00 (149)** Mrs Minnie Lewis,
Porthaethwy.

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

- £18 Gwledydd Prydain
£27 Ewrop
£36 Gweddill y Byd



Owen G. Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com

☎ 01248 600184

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Llythyr

Annwyl Ddarllenwyr,

Os gwn i pa bryd y buoch chi yn ‘Steddfod Dyffryn Ogwen ddwytha’? Sbel go lew tybed? Wel, mae pethau wedi newid ers rhyw dair blynedd bellach!

A deud y gwir, mi allwn ganu'r hen gân honno “Nid yw'r Steddfod ddim fel y buo hi amser maith yn ôl!”

'Dach chi'n cofio fel y byddech chi bron iawn a mynd yn sowldiwr wrth wrando ar rhyw ddwsin neu fwy o gantorion yn canu'r un gân – y naill ar ôl y llall! Wel, dydi hynny ddim yn digwydd rwan – ddim ar nos Wener Eisteddfod Dyffryn Ogwen beth bynnag!

Mae o'n debycach o lawer i gonsart – a hwnnw'n gonsart gwerth chweil hefyd!! Corau ac unawdwyr ac offerynwyr yn gymysg oll i gyd – a seremoni'r cadeirio hefyd!

Pam na ddowch chi draw am dro i Neuadd Ogwen ar nos Wener, 16 Tachwedd, erbyn 6.30. Mi fyddwch chi'n siwr o fwynhau – neu mi fyta'i'n het!!!!

Yn gywir,
Neville Hughes, Cadeirydd Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen

Llythyrau

Trigle Trist
Ar gyrion Parc Meurig
Bethesda
20 Medi 2012

Annwyl Olygydd

Yr hyn sy'n poeni'r ardal hon yw,,,
Tîm pêl-droed Bethesda AFC

Tristwch o'r mwyaf i drigolion Dyffryn Ogwen oedd clywed bod y tîm pêl-droed lleol wedi cael ei ddirwyn i ben ac wedi tynnu allan o'r gynghrair ar ôl blynyddoedd o fod yn aelodau. Siom fawr yn wir – a beth ddwedai'r hen bobl tybed – y rheini a sefydlodd y gwahanol dimau yn yr ardal dros yr holl flynyddoedd ac a fu'n gefnogwyr brwd a selog drwy hindda a drycin ar Barc Meurig.

Mae'n ironig iawn ein bod yn cael peth o hanes gwych tîm y Penrhyn Quarry yn Llais Ogwan y misoedd hyn – a dyma ni, yn swm y ganmoliaeth honno, yn cael newyddion torcalonnus bod tîm presennol Bethesda yn diflannu mor ddiseremoni!

Tybed a gawn ni eglurhad a synnwyr gan Gadeirydd ac aelodau pwyllgor Bethesda Athletic ynghylch y sefyllfa drist hon, gan nodi hefyd beth ydi dyfodol tebygol cae Parc Meurig.

Cefnogwr brwd ond digalon.
Cafwyd enw a chyfeiriad y llythyrrw.

Annwyl Gyfeillion,

Rwy'n chwilio am wybodaeth am Cecil Owen (ganwyd 1922) a'i wraig Gwyneth (1934). Yn ôl y gwaith papur, mae yna wyth o blant – Avril 1957, Hefina Frazer, Helen, Griffith, Medwyn, Dilys Bowen, Huw Frazer, a Delyth.

Mae taid y plant, Griffith Owen, a Gwladys Owen yn wreiddiol o Moel-y-ci, a gynt o Bodesi, Capel Curig, Nant Ffrancon.

Yn gywir William S. Roberts
Pen y Ceunant Isaf
Llanberis.
Ffôn 01286 872606

Llyfrgell Bethesda

Llongyfarchiadau i blant Dyffryn Ogwen am wneud mor dda yn y Lab Straeon, sialens ddarllen ar gyfer gwyliau'r haf. Mae 112 wedi cymryd rhan ac mae 75 wedi ei gwblhau – dwywaith yn fwy na niferoedd y llynedd!

Cofiwch ddal ati efo'r gwaith da blant, ac mae croeso i chi ddod i'r llyfrgell i fenthgy mwy o lyfrau.

Holi hwn a holi'r llall



Y Cynghorydd Dafydd Meurig
Ward Arllechwedd

Enw: Dafydd Meurig, **Oed:** 49

Ymhle cawsoch eich geni?
Dyffryn Ogwen

Ymhle ydych chi'n byw?
Dwi'n byw ym mhentref Llanllechid, mewn bwthyn bychan heb fod nepell o Foel Faban

Oes gennych chi deulu?
Dwi'n dad i bedwar o blant sydd wedi tyfu - dwy athrawes, un plismon ac un myfyriwr. Dwi'n briod â Louise, sy'n fyfyrwraig llawn amser.

Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am fod yn Gynghorydd Sir?
Bod yn rhan o dîm sydd â'r gallu i wneud gwahaniaeth i ddinasyddion Gwynedd

Beth ydych chi'n ei gasáu fwyaf am fod yn Gynghorydd Sir?
Rhai cyfarfodydd sy'n hwy nag sydd angen iddyn nhw fod, gyda llawer o siarad gwag!

Beth yw eich camp fwyaf ers cael eich ethol yn Gynghorydd Sir?
Helpu i lansio Grŵp Cymunedol ym mhentre Talybont o'r enw 'Trigolion Talybont' ble mae rhieni ifainc wedi dod at ei gilydd i geisio gwella'r ddarpariaeth leol ar gyfer plant a phobl ifainc. Mae'r grŵp wedi trefnu nifer o weithgareddau dros y misoedd diwethaf, gyda'r bwriad o ddod a'r gymuned at ei gilydd yn gymdeithasol yn ogystal â chodi arian ar gyfer offer newydd i blant hŷn yn y cae chwarae. Mae'r digwyddiadau yn cynnwys Miri Haf - digwyddiad cymunedol llawn hwyl - helfa wyau Pasg, a pharti Calan Gaeaf. Mae'r grŵp hefyd wedi bod mewn trafodaethau gyda chwmnïau sy'n darparu offer chwarae, a gydag asiantaethau all gynnig grantiau. Mae cryn frwdfrydedd yn y pentref ar gyfer y cynlluniau, ac mae pobl yr ardal wedi bod yn gefnogol iawn i'r grŵp sy'n llywio'r gweithgareddau.

Pwy yw eich arwr / arwres?
Gwynfor Evans

Beth yw eich atgof plentyn hapusaf?
Gwersylla gyda ffrindiau yn Nant Ffrancon yn ystod haf poeth 1976, a nofio yn Afon Ogwen.

Beth yw eich ofn mwyaf?
Yr ofn nad oes digon o arian ar gael i gyflawni'r hyn yr hoffwn ei gyflawni yn y Ward.

Pa sgwarnog ydych chi ar ei hôl ar y funud?
Brwydro i geisio newid Deddf, fel bod awdurdodau lleol yn cael rheolaeth lwy'r ar Drafnidiaeth Gyhoeddus. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau gwasanaeth bysiau teilwng i drigolion Gwynedd.

Taith o Amgylch Mynwentydd Dyffryn Ogwen

gan Andre Lomozik
Rhan 3

Yn dilyn erthygl mis diwethaf lle roeddwn yn sôn am Angelo Robert Tremarco, a gladdwyd yng Nghladdfa Ymneilltuol Coetmor, cefais ddwy alwad ffôn, un gan Gareth Jones a'r llall gan Charles Doyle y ddau o Rachub, gyda gwybodaeth am Angelo. Mae'n ymddangos bod y diweddar Tommy Doyle wedi bod yn ewythr iddo ac roedd yn gefnder i Fred, Charles ac Alan Doyle. Yn ôl Charles mae brawd a dwy chwaer i Angelo yn dal i fyw yn Lerpwl, ac mae teulu Rachub mewn cysylltiad â hwy o hyd. Diolch i Charles am lenwi bwllch yn hanes yr unigolyn yma.



Eglwys Goffa Donald Robertson (Eglwys Coetmor)

Adeiladwyd yr eglwys er cof am Charles Donald Robertson, gŵr ifanc o Chelsea Court, Chelsea Embankment, Llundain. Mab i'r diweddar Mr Charles B. Robertson 'of His Majesty's Foreign Office' a Mrs Robertson, Chelsea Court, a brawd ieuengaf Mr Arnold Robertson, Llysgenhadaeth Prydain, Madrid.

Roedd Donald Robertson, gŵr 32 mlwydd oed, yn dringo ar y Glyder Fach gyda ffrindiau ar ddydd Gwener, Mawrth 25ain, 1910 pan syrthiodd tua 30 troedfedd a tharo ei ben ar y graig. Daeth un o'i gyfeillion i Fethesda i chwilio am feddyg ond nid oedd un ar gael ac 'roedd yn rhaid iddo fynd i Fangor lle cafodd hyd i Dr. Gray Edwards. 'Roeddynt yn ôl gyda'r claf mewn dwy awr a hanner. Cludwyd Donald i'r ysbyty erbyn 6 o'r gloch nos Wener, lle bu farw rai oriau'n ddiweddarach. 'Roedd yn ddringwr profiadol ac yn aelod o'r 'Alpine and Leader Clubs'.

Cludwyd ei gorff i Eglwys Glanogwen y dydd Llun canlynol o'r ysbyty gyda'r elorgerbyd (hers) wedi ei orchuddio a chenhinen Pedr. Daeth Mrs Robertson ac aelodau o'r teulu o Lundain i Fethesda ac aros yn y 'Victoria Hotel' Gwasanaeth preifat oedd yr angladd ddydd Mawrth ond fel arwydd o gydymdeimlad â'r teulu roedd trigolion y pentref wedi ymgasglu ar hyd y ffordd o'r eglwys i'r fynwent. Ficer Glanogwen y Parchedig R. T. Jones a'r Parchedig R. R. Hughes oedd yn gwasanaethu, gyda chôr yr eglwys yn canu 'O Fryniau Caersalem' ac 'I heard a voice from heaven saying unto me'.



Bedd Charles Donald Robertson 1879–1910

Rhoddyd yr arch i orffwys mewn bedd i wynebu'r mynyddoedd gyda'r côr yn canu 'Bydd myrdd o ryfeddodau'. Y Meistri Watkin Jones o Fangor oedd yr ymgymerywr.

Y diwrnod yn dilyn angladd Charles Donald Robertson, sef dydd Mercher, yn St. Margaret's Church Westminster gyda'r Canon Duckworth yn gwasanaethu cynhaliwyd gwasanaeth coffa.

I'w barhau.....

Bethesda

Llên Ogwen,
Stryd Fawr, Bethesda
☎ 600431

Siop Kathy
Stryd Fawr, Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☐ ☎ 601592

Joe Hughes,
Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda ☐ ☎ 601902

Ysbyty

Cofion a gwellhad buan i'r rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, sef: Mrs Eleri Griffiths, Stryd Fawr; Mrs Percy Parry, Erw Las; Mrs Elenor Jones, Bryn Caseg; Mr Denis Howells, Ffordd Ffrydlas; Mrs Margaret Williams, Erw Las; Mrs Eirwen Morris, Ffordd Abercaseg; Mr John Jones, Maes Coetmor; Mr Phillip Williams, Pen-y-bryn.

Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Amii a Kevin, Stryd Cefnfaes ar enedigaeth efeilliaid ar 10 Medi, sef dau fachgen, Harri Gwyn a Jac Gwyn, dau frawd i Tomos.

Llongyfarchiadau hefyd i nain a taid Pen-y-bryn, Mr a Mrs G. Jones, nain Gerlan Mrs A Davies, hen-nain a hen-daidd Tanysgrafell, Mr a Mrs J. Davies, a hen nain Maesygarneidd, Mrs T Roberts.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad tuag at Mr a Mrs John Davies, Tanysgrafell yn eu profedigaeth o golli brawd John ym Metws yn Rhos.

Llongyfarchiadau

i Lynne Adams, Abercaseg ar ennill Gradd BA Addysg ym Mhrifysgol Bangor. Mae'r teulu i gyd yn falch o dy lwyddiant ac yn dymuno pob hwyl i ti at y dyfodol.

Llongyfarchiadau

i Ceri Ann Davies, Erw Las, Bethesda ar ennill Tystysgrif Addysg i Raddedigion. Cariad Mawr oddi wrth Mam, Dad, Gwenno, Manon, Nain a Taid, Nain, Angela a'r teulu.

Y Lleng Prydeinig - Cangen Bethesda

Ni fydd y Gangen yn cynnal Gwasanaethau Sul y Cofio eleni gan fod y Gangen yn dirwyn i ben. Hoffai Wyn Roberts, y Cadeirydd a Kenneth Hughes, y Llywydd, ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ar hyd y blynyddoedd. Cyfeiriwch at gyhoeddiadau'r Eglwys lleol er mwyn cael gwybodaeth am y gwasanaethau hyn.

Pen-blwydd Arbennig

Bu Brenda Owen, Ffordd Ffrydlas, yn dathlu ei phen-blwydd yn 70 oed yn ddiweddar. Dymuniadau

gorau iddi am ben-blwydd hapus iawn gan ei theulu a'i ffrindiau oll.

Dathlu

Llongyfarchiadau mawr i Dilys a Stan Edwards, Ffordd Coedmor, ar dathlu eu Priodas Ddiemwnt ar 4 Hydref. Mae Stan ym Mhlas Ogwen a bydd Dilys yn mynd yno i'w weld bob dydd. Gobeithio i chi gael dathliad arbennig.

Ysbyty

Anfonwn ein cofion at Glyn Campbell Erw Las wedi cyfnod yn yr ysbyty.

Ymdeol

Dymuniadau gorau i Glenys Rowlands, Erw Las, sydd wedi ymdeol ar ôl blynyddoedd o wasanaeth yn ei swydd, sef cogyddes yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Roedd Glenys bob amser mor barod ei chymwynas gyda'r eisteddfodau a gynhaliwyd yno. Ymdeoliad hapus iawn iddi.

Dymuniadau gorau

Mae Natalie Wyn Adl, 36 Abercaseg, wedi derbyn llawdriniaeth i dynnu'r pendics yn Ysbyty Gwynedd yng nghanol mis Medi. Mae'r teulu i gyd yn anfon eu dymuniadau gorau at Natalie, ac yn dymuno gwellhad buan iddi.

Diolch

Dymuna Elizabeth Evans (Bing), 12 Rhos y Coed, ddiolch o galon i'w theulu a chymdogion am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ar ôl cael strôc yn ddiweddar.

Gorffwysfan, Stryd Fawr.

Pwyllgor

Cynhaliwyd pwyllgor fore dydd Llun, 17 Medi am 11.00 y bore, gyda Mr Eric Jones yn y gadair.

Cafwyd gair o groeso i bawb gan y Cadeirydd ac yn bresennol roedd Dennis Dart, Eric Jones, Joe Evans, Dafydd Pritchard, Vernon Owen, Rhiannon Efans, O.J. Evans, Elfed Bullock, Tom Morgan a Joe Hughes. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

Diolchodd y cadeirydd i'r rhai a fu'n trefnu Gwibdaith Llangollen ac Amwythig (11 Medi) a dymunodd wellhad i Mrs Rene Parry yn dilyn damwain yn Amwythig.

Darllenwyd cofnodion pwyllgor 27 Chwefror 2012.

Materion i'w trafod

Cinio Nadolig 2012
Wedi trafodaeth penderfynwyd mynd i Landudno yn y bore ac yna ymlaen i Fetws y Coed am y cinio Nadolig, Y dyddiad pwysig yw dydd Mawrth 11 Rhagfyr.

Bore Coffi 2013

Penderfynwyd cynnal bore coffi eto yn 2013.

Gwibdaith Nadolig i Gaer, dydd Mawrth, 4 Rhagfyr.

Diolchwyd i'r ysgrifennydd a'r trysorydd am eu gwaith a phenderfynwyd y byddai'r swyddogion yn aros yn eu swyddi am flwyddyn arall.

Llwyddiant Gareth

Llongyfarchiadau i Gareth Jones, Bryn Caseg, ar lwyddo i basio ei arholiadau gyda rhagoriaeth. Bu Gareth yn dilyn cwrs dwy flynedd yn astudio Coedwigaeth a Rheolaeth Cefn Gwlad yng Ngholeg Meirion-Dwyfor, Glynllifon.

Hefyd, yn ychwanegol, cyflwynwyd Gwobr Goffa Gerallt Owain Edwards i Gareth am fod y myfyriwr gyda gwaith ymarferol gorau'r flwyddyn.



Teimlai Gareth ei bod yn ffraind fawr iddo dderbyn y wobwr, yn enwedig wrth iddo ddod â'r wobwr yn ôl i Fethesda, i ardal enedigol y ddau ohonynt, a honno er cof am Gerallt.

Ers i Gareth ymadael â'r Coleg y mae eisoes wedi mynychu cwrs dringo coed ac erbyn hyn wedi pasio hwnnw hefyd. Mae Gareth yn gobeithio cael gwaith ym maes coedwigaeth yn y dyfodol, ond ar hyn o bryd mae'n gweithio gyda'r un cwmni â'i dad.

Hoffai Gareth ddiolch i holl diwtoriaid Coleg Glynllifon am eu holl gefnogaeth tra bu'n mynychu'r coleg, a phob lwc i bawb a fydd yn dilyn y cwrs coedwigaeth yn y dyfodol.

Ymddiheuriad : Mae Llais Ogwan yn ymddiheuro am y camgymeriadau a ymddangosodd yn y stori uchod yn rhifyn mis Medi ac wedi penderfynu ei chynnwys eto y rhifyn hwn (yn gywir).

Yn ôl i'w gynefin

Croeso 'nôl i Kevin Beattie a'r teulu sydd bellach wedi ymgartrefu yn Nhregarth. Mae Kevin yn enedigol o ardal Bethesda, wedi ei fagu ym Maes Bleddyn ac yn ddiweddarach yn Abercaseg.

Ymunodd â'r Llu Awyr Brenhinol yn 1985 ac mae wedi arbenigo fel Rheolwr Arlwy. Yn ystod ei yrfa mae wedi bod mewn sawl ymgyrch dramor, gan gynnwys y Dwyrain Canol ac Ynysoedd y Falklands.

Erbyn hyn mae Kevin wedi derbyn dyrchafiad i swydd Station Warrant Officer (SWO) yn RAF Fali, Ynys Môn - Kevin yw'r person cyntaf i ddal y swydd yma yn Stesion Llu Awyr y Dyffryn a hefyd yr unig SWO yno erioed i allu siarad Cymraeg.

Mae Kevin a'i deulu wrth eu boddau cael bod yn ôl yn eu cynefin genedigol ac mae'r teulu estynedig oll yn ardal Bethesda yn estyn croeso mawr ac yn gwerthfawrogi cael Kevin, Wendy a Robert yn ôl yn eu plith.



Disgo Calan Gaeaf Cylch Meithrin Cefnfaes

Nos Fercher, 31 Hydref yng Nghlwb Criced Bethesda
5.00 i 7.00 o'r gloch

Gwisg Ffansi, Cŵn poeth, Raffl

Mynediad £1.00

Croeso cynnes i bawb!

Elw at Gylch Meithrin Cefnfaes

Eglwys Crist, Glanogwen

Gwasanaethau

Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:

Pob bore Sul am 8.00am - Cymun Bendigaidd
Sul Cyntaf pob mis - "Llanast yn y Llan" (Gweler isod)
Ail a thrydydd Sul pob mis - Cymun Bendigaidd Cymraeg
Pedwerydd Sul pob mis - Cymun Bendigaidd dwyieithog
Pumed Sul - Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandegai a Pentir (Lleoliad i'w gyhoeddi.)
Pob bore Mercher am 10.30am - Cymun Bendigaidd

Llanast yn y Llan

Na nid llanast go iawn!! Rhyw fath o wasanaeth teuluol anffurfiol. Dewisir thema ar gyfer y gwasanaeth ac mae cyfle i brofi gweithgareddau ymarferol a chreu arddangosfa. Cyfle i blant ac oedolion gael hwyl wrth addoli. Ar ddiwedd y gwasanaeth trefnir lluniaeth i bawb. Dewch draw ar Sul cyntaf y mis i weld beth sy'n mynd ymlaen.

Arch Noa

Clwb bach yw hwn ar gyfer plant bach cyn oed ysgol. Mae'n cyfarfod yn Ysgol Abercaseg bob bore Llun am 9.15am.

Gwasanaethu

Ers ymadawiad y Barchedig Nia Catrin, penodwyd Y Parchedig John Matthews yn Ddeon Bro. Ef bellach sydd â chyfrifoldeb am Glanogwen. Ei rif ffôn yw 01248364991. Dywed y Parch John Matthews yng nghylchlythyr Medi/Hydref ei bod yn braf bod yn rhan o ofalaeth Glanogwen, Mynydd Llandegai a Pentir. Mae'n bleser ganddo gydweithio â'r Parchedigion Jenny Hood a Christina McCrae ac mae hefyd yn gwerthfawrogi'r cydweithrediad â'r wardeiniaid "Rwyf bob amser ar gael i'ch helpu," meddai, "peidiwch â bod yn swil - ffoiniwch."

Mae'r Barchedig Christina McCrae, ffôn 01248672249 a'r Barch Jennifer Hood, ffôn 01248605017 yn parhau gyda ni fel Curadiaid.

Ers rhai wythnosau bellach, rydym wedi bod yn ffodus iawn o gael gwasanaeth y Parchedig Ganon Idris Thomas. Ficer wedi ymddeol yw Mr Thomas ac mae'n byw yn Llanddeiniolen. Rydym yn ffodus iawn o gael ei wasanaeth ac mae pawb ddaw i'r gwasanaethau wrth eu bodd gydag ef gan fwynhau ei ddull bonheddig, unigryw ac ymroddgar. Mae yntau wrth ei fodd dod i Glanogwen. Gobeithiwn gael ei wasanaeth tan o leiaf ddiwedd y flwyddyn hon.

Diolchgarwch

Nos Fercher, 3 Hydref daeth criw da o aelodau'r Eglwys i ddathlu Diolchgarwch gyda swper ardderchog yng Nghaffi Coed y Brenin. Cafwyd noson hwyliog dros ben a phawb wedi mwynhau y cyfle i sgwrsio a chymdeithasu. Diolchwyd i staff Coed y Brenin am baratoi swper mor flasu i bawb.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yr Eglwys, fore Sul, 7 Hydref o dan arweiniad y Parchedig John Matthews.

Cylch Meithrin Cefnfaes



Croeso Mawr i'r holl blant bach newydd i gylch Meithrin Cefnfaes. Gobeithio y cewch chi i gyd lawer iawn o hwyl a sbri yn ein plith dros y flwyddyn nesaf.


Mae llefydd ar gael o hyd yn y Cylch. Os oes diddordeb cysylltwch efo Ceri ar 07815085323

Hoffai'r cylch ddiolch i Londis am y cyfraniad caredig a fydd yn help mawr at brynu adnoddau newydd i'r plant bach.

Cerdded Eryri yn codi £2,000

Llongyfarchiadau i Ray Davies o Lôn Sarnau, Bethesda a'i ffrindiau ar eu taith gerdded noddedig lwyddiannus.

Casglwyd £2,000 tuag at Adran Ymchwil Cancr y Pancreas yn Ysbyty Royal yn Lerpwl, fel arwydd o ddiolch am y gofal a dderbyniodd ei wraig, Lin, yno.



Yn y llun mae Ray a Lin yn cyflwyno'r sic i'r Athro Sutton, un o'r llawfeddygon sydd yn arbenigwr yn yr adran.

A dyma ddwy o enethod Llain y Pebyll a gasglodd £60 tuag at y gronfa, sef Lauren Williams ac Arwen Morgan.

Dymuna Ray, Lin a'r teulu ddiolch i bobl Bethesda am eu cefnogaeth a'u haelioni.



Merched y Wawr Cangen Bethesda

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor nos Iau, Medi 27 dan lywyddiaeth Elina Owen. Canwyd ein hanthem gyda Gwenno Evans yn cyfeilio. Croesawyd y swyddogion newydd sef Jennie Jones yn ysgrifennydd, gyda Pat Corns i'w chynorthwyo, a'r trysorydd, sef y fythol wyrdd Glenys Clark, yn aros yn ei swydd. Diolchwyd yn gynnes iawn i Margaret Jones ac Eleanor Morris a fu'n llywydd ac Ysgrifennydd am gyfnod hir. Gwerthfawrogwn eu gwaith a sylweddolwn fod y ddwy wedi gweithio dan amodau anodd iawn yn ystod y misoedd olaf. Mae'n hedmygedd ohonoch a'n gwerthfawrogiad ohonoch yn fawr. Yn anffodus ni fedrai'r gohebydd i'r wasg newydd fod yn bresennol oherwydd ei bod wedi cael triniaeth i'w phen-glin. Deallwn ei bod yn gwella ac edrychwn ymlaen at ei chwmmi a'i chyfraniad.

Roedd amryw wedi bod yn cwyno a nifer o'r ffyddloniaid heb fod yn y cyfarfod. Edrychwn ymlaen at eich croesawu y tro nesaf. Drwg gennym glywed bod Margaret Bowen Rees wedi cael damwain. Gobeithio eich bod yn gwella. Da oedd clywed bod Lisa, wyres Jean Ogwen Jones, yn gwella ar ôl triniaeth fawr. Pob dymuniad da iddi ac i'w hefaill Nia sy'n debygol o wynebu'r un driniaeth ymhlen y flwyddyn. Llongyfarchiadau i'w chwaer fawr am ei llwyddiant yn ei harholiadau a phob hwyl iddi yng Ngholeg Lerpwl.

Yn ystod yr haf, priodwyd Elin (wyres Jennie) a Nia (merch Medi). Pob dymuniad da iddynt ac i Richard Corns hefyd ar ei briodas yntau. Llongyfarchiadau hefyd i'w frawd Robert sydd wedi eistedd ei arholiadau terfynol fel llawfeddyg ac wedi llwyddo yn anrhydeddus iawn. (Mae nawr yn Llawfeddyg Nerfol Ymgynghorol).

Croesawyd atom i'n diddanu Lisa Jên a Martin o'r Gerlan. Mae'r ddau yn llwyddiannus iawn fel deuaud - Lisa Jên gyda'i llais swynol a Martin ar yr offerynnau. Maent hefyd yn rhan o'r grŵp 9bach. Da clywed Martin yn siarad Cymraeg mor hyderus.

Diolchodd y llywydd i'r artistiaid am noson ddfyr ac i swyddogion presennol a swyddogion llynedd ynghyd â Jean a Gwenno am ddarparu'r lluniaeth ac i bawb a fu'n eu cynorthwyo.

Bydd y cyfarfod nesaf yng Nghanolfan Cefnfaes, nos Iau Hydref 25, pryd y bydd cyfle i nifer o grefftwyr lleol ddangos eu gwaith ac i chwithau gefnogi ein pobl ein hunain yn lle chwyddo coffrau'r siopau mawr. Cyfle ardderchog i siopa Nadolig. Croeso.

**Yr Eglwys Unedig
Gweinidog: Y Parchedig Geraint Hughes**

Yn ôl ein harfer, anfonwn ein cofion at y cleifion i gyd. Da cael dweud bod rhai wedi cael dod adref ac yn gwella, eraill yn gobeithio cael dod yn fuan. Mae'r tywydd yn dal yn bur anffafriol ond mae pob cŵyn felly yn pylu yn wyneb yr hanes trist am ferch fach bump oed ar goll ym Machynlleth. Gweddïwn dros y teulu a'r gymuned.

Jean Ogwen Jones oedd yn arwain y Cyfarfod Gweddi ddechrau'r mis gydag Olwen Williams ac Elina Owen yn ei chynorthwyo.

Dymuniadau gorau i Mrs. Nancy Hughes a Gerallt yn eu cartref newydd yn Llangefni. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yno.

Fe fu'r eglwys yn dewis blaenoriaid yn ddiweddar ac fe fuont yn ffodus i fedru ethol saith. Gwyddom fod pedwar yn barod i ymgymryd â'r gwaith ac fe fyddant yn cael eu hordeinio yn y Cyfarfod Misol a gynhelir ym Merea Newydd yn mis Hydref; mae dau arall yn cymryd rhagor o amser i ystyried cyn penderfynu ac ar hyn o bryd, nid yw'r seithfed yn gweld ei ffordd yn glir i ymgymryd â'r gwaith.

Llongyfarchiadau i'r saith ohonynt a phob bendith yn eu gwaith. Yn ystod tymor y gwyliau bu dwy briodas. Dymunwn yn dda i Elin (wyres Jennie Jones) a'i phriod Stephen a Nia (merch Medi Williams) a'i phriod John

Mae'r Ysgol Sul a'r Clwb nos Fawrth wedi ail ddechrau ar eu gwaith a gobeithiwn fod y plant i gyd yn hapus yn eu dosbarthiadau a'u hysgolion newydd. Hefyd y rhai hyn sydd wedi dechrau mewn coleg neu waith.

Gwasanaethau'r Sul.
21 Hydref:
Parch. W R Williams
28 Hydref:
I'w drefnu
04 Tachwedd:
Y Gweinidog
11 Tachwedd:
Oedfaon dan ofal yr aelodau

**EGLWYS UNEDIG
BETHESDA
'LLENW'R CWPAN'
Dewch am sgwrs a phaned
Bob bore dydd Iau
rhwng 10.00 o'r gloch a
hanner dydd**

**Capel Bethania
Oedfaon**

**4 Tachwedd: Mr Glyn Owen
Tachwedd 18:
Parch. Gwynfor Williams**

Oedfaon am 5.30 o'r gloch

Croeso Cynnes i Bawb

**EGLWYS UNEDIG
BETHESDA
yng Nghapel Jerusalem**

**Estynnir croeso cynnes i
bawb i oedfaon Sul**

Bore Gwasanaeth ac
Ysgol Sul am 10.00
Hwyr Gwasanaeth am 5.00

**Rachub a
Llanllechid**

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub LL57 3LW
☎ 601880

Croeso
Croeso i Marilyn a Ronald Parry i bentref Rachub. Symudodd y ddau o Fynydd Llandygai a bellach maent yn byw yn rhif 5 Yr Hen Ysgol.
Pob hwyl iddynt

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Aron a Llinos ar enedigaeth mab, Cai Ogwen. Maent bellach yn byw ar y Stryd Fawr, Bethesda.

**CYLCH TI A FI
Disgo Gwisg Ffansi
yn y Ganolfan**

Nos Fawrth 30 Hydref
6.00 i 8.00 o'r gloch

Cŵn poeth, creision a diod
siocled ar werth.

Hefyd llongyfarchiadau i Brian a Margaret Roberts, Tanygarth ar ddod yn hen nain a thaid.
Dymuniadau gorau i'r teulu i gyd.

Cylch Ti a Fi
Mae tymor newydd y cylch wedi cychwyn yng Nghanolfan Rachub. Byddant yn cwrdd rhwng 10.00 a 12.00 bob dydd Gwener.
£2 y plentyn yw'r gost ac mae Keilly yn croesawu cyn-aelodau ac aelodau newydd. Am fwy o fanylion cysylltwch â hi ar 01248 602874.

'Sgodyn Braff



Gavin efo'r eog swmpus!

Ar Fedi 16 fe ddaliodd Gavin Williams, Ffordd Llanllechid eog hyfryd yn Afon Ogwen, dan bont Bryn Bela. Pwysai'r 'sgodyn yn 13 pwys 3 owns.

Mae hyn ychydig yn llai na'r un 14 pwys a ddaliodd y llynedd. Gwelwn lun o Gavin gyda'r bwystfil!

Wrth gwrs mae mater o falchder teuluol yn y fantol ac mae Gavin yn falch o gael dweud wrth Llais Ogwan bod y pysgodyn yma yn fwy na'r un 12 pwys 9 owns a ddaliodd ei dad yn gynharach yn y tymor. Wrth ysgrifennu hyn, mae pythefnos arall yn weddill o'r tymor ac mae Gwilym yn hyderus y gall wella ar hyn.

Genedigaeth



Llongyfarchiadau i Dafydd a Julie Rowlands, Tan y Garth, ar ddod yn daid a nain eto. Llongyfarchiadau hefyd i Dad a Mam, sef Mark a Natalie (uchod) ar enedigaeth Cai.

**CAPEL CARMEL
Gwasanaethau**

Mis Hydref
21 Y Parch. T Roberts 2.00
28 Y Gweinidog 2.00 a 5.00

Mis Tachwedd
04 Mr Dafydd Iwan 5.00
11 Y Gweinidog 2.00 a 5.00
18 Y Parch. G. Williams 5.00
Yr Ysgol Sul 10.30 y bore
Dwylo Prysur, nos Wener 6.30

Croeso Cynnes i Bawb

**CAPEL BETHEL
Gwasanaethau**

Mis Hydref
28 Parch. Elwyn Jones

Mis Tachwedd
04 Mr J.O. Roberts, Bethesda
11 Y Gweinidog
18 Mr Richard Lloyd Jones

Oedfaon am 2.00 o'r gloch.

Croeso cynnes i bawb.

Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Brysiwch wella!

Braf yw clywed bod Eurwen Morris, Garnedd Uchaf, Ffordd Abercaseg wedi dychwelyd adref o'r ysbyty ac yn gwella ar ôl cael triniaeth. Cymrwch bethau'n ysgafn am dipyn yn awr, Eurwen.

Diolch

Dymuna Eurwen Morris, Garnedd Uchaf, ddiolch i bawb am y dymuniadau gorau, ar ffurf ymweliadau, galwadau ffôn, a chardiau a dderbyniodd yn dilyn triniaeth yn yr ysbyty. Diolch yn fawr iawn i bawb!

Geni

Llongyfarchiadau mawr i Elin a James, Tan Treflys, ar enedigaeth merch fach, Lili Mair, chwaer i Osian Rhys. Ein dymuniadau gorau i chi fel teulu

Yn yr ysbyty

Mae Alun Ogwen Thomas, Ffordd Gerlan, ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Rydym i gyd yn anfon ein cofion atoch, ac yn dymuno gwellad llwyr a buan i chi

Diolch

Dymuna Richard a Jên Temple Morris, Tan y Garth, ddiolch o waelod calon i bawb am bob caredigrwydd a dderbyniasant ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Margiad Ann. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd!

Profediageth

Daeth newyddion trist i'r ardal am farwolaeth Steve Fisher, Stryd y Ffynnon, ac yntau'n w'r ifanc, dim ond ychydig dros ei hanner cant. Nid oedd Steve wedi bod yn dda ei iechyd ers nifer o flynyddoedd. Rydym yn anfon ein cydymdeimlad at ei deulu a'i ffrindiau i gyd.

Dymuniadau gorau

Braf yw nodi fod Paula Williams, Ffordd Gerlan yn gwella wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Rydym yn anfon ein dymuniadau gorau atat, Paula, ac yn dymuno gwellad buan i chdi.

Adref o'r ysbyty

Ar ôl treulio cyfnod o dair wythnos yn Ysbyty Gwynedd, rydym yn falch o glywed bod Mona Jones Roberts, Ffordd Gerlan, wedi dychwelyd adref. Rydym i gyd yn anfon ein cofion atoch, ac yn gobeithio eich bod yn cryfhau bob dydd.

Llandygái

Ethel Davies, Pennard,
Llandygái ☎353886

Cleifion

Rydym yn anfon ein cofion a'n dymuniadau da at gymdogion a ffrindiau sydd heb fod yn dda eu hiechyd yn ddiweddar. Mae rhai wedi bod yn cwyno ers tro byd, rhai wedi bod yn yr ysbyty ac eraill yn cael gofal gartref:- Dei Edwards, Jill Bullen, Ernie a Nerys Coleman, Jim a Beryl Hughes, Dr Pam Jones, Olwen Lytham, Betty Williams a Dorothy Proudley Williams - brysiwch wella.

Diolch

Bydd yr Eglwys Agored yn dod i ben ar ddiwedd y mis yma tan y gwanwyn nesaf. Diolch o galon i bawb a fu ar ddyletswydd am y saith mis diwethaf yma, yn bentrefwyr ac yn aelodau'r eglwys. Diolch arbennig i Mr Peter Bullen, gan mai ef oedd yn gyfrifol yn absenoldeb yr Athro Ian Russel. Bu rhai yn llafurio yn y fynwent yn ystod y flwyddyn hefyd, a mawr yw ein dyled i chwi.

Addysg

Mae'r ysgolion a'r colegau wedi ail-ddechrau eto a bydd blwyddyn brysur o flaen y disgyblion a'r athrawon. Ni chafodd neb dywydd gwerth sôn amdano ac nid yw'n argoeli am dywydd gwell yr hydref yma chwaith, ond efallai fod yr egwyl fer wedi gwneud lles i bawb.

Pob lwc i Richard Leverett a fydd yn dechrau yn y coleg y tymor hwn ac yna'n mynd ymlaen i'r brifysgol y flwyddyn nesaf.

Bingo

Cafwyd noson ddifyr arall o Bingo yn Neuadd Talgai ar nos Fawrth, 18 Medi, er budd y neuadd. Diolch arbennig i Paulie a Raymond am eu gwaith caled yn trefnu'r noson ac i bawb arall am eu cefnogaeth, heb anghofio merched y baned.

Bore Coffi

Cynhaliwyd Bore Coffi yn Neuadd Ogwen ar fore Sadwrn 28 Gorffennaf a gwnaed elw sylweddol tuag at brynu gwobrau i'r bingo sydd yn y neuadd bob mis. Diolch i drigolion Bethesda a'r cylch am eu cefnogaeth ac yn arbennig i Julie 44 am y cremogau - y rhai gorau yng Nghymru!! Diolch hefyd i Iona am roddi teisen i'w rafflo, ar wahân i'r rafflau eraill.

Sefydliad y Merched

Cawson gyfarfod mis Medi arbennig yng nghwmni Buddug Jones o Gaernarfon, a'i ffrind Marian Hughes.

Gwraig ddall yw Buddug a chanddi gi tywys - Freya.

Croesawodd Eira y tair ohonynt atom. Dangosodd Marian sleidiau o wahanol gŵn tywys yn yr ardal hon a dweud ychydig o'u hanes. Hyfryd oedd eu gweld a'r gofal yr oeddent yn ei gael ac yn ei roi i'r deillion. Siaradodd Buddug wedyn gan bwysu mor anhepgor iddi oedd Freya. Mwynhaodd pawb y noson, gan edmygu'r ci yn fawr.

Diolchwyd iddynt gan Eira. Daeth y baned ac wedyn i lawr i'r busnes. Ymddiheuriad gan Wendy a Gwyneth am eu habsenoldeb.

Darllenwyd y llythyr misol gan Sheila a nodwyd y cynnwys. Mae rhaglen 2013 wedi ei llunio, yn ogystal â'r cinio Dolig.

Diolchodd Ann i bawb am y gefnogaeth i noson ddifyr iawn.

Eglwys Sant Tegai

Pen-blwydd

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Miss Nerys Jones a fydd yn dathlu ei phen-blwydd ar ddydd Sul, 21 Hydref. Gobeithio y cewch ddiwrnod wrth eich bodd. Diolch yn fawr i chwi, Nerys, am yr holl waith yr ydych yn ei wneud o fewn yr eglwys. Rydych yn gaffaeliad hynod o werthfawr i Sant Tegai ac i'r pentref hefyd.

Cleifion

Rydym yn anfon ein cofion anwylaf y mis hwn eto at Mrs Jane Couch, Mrs Beryl Edwards, Mr Gwynne Edwards, Harry Gross a Mrs Liz Jones. Hyderwn y bydd pethau yn gwella i chi yn fuan.

Bedydd

Ar brynhawn Sul, 23 Medi bedyddiwyd Riley Creed a daeth nifer dda o'i deulu a'i ffrindiau yno i'r gwasanaeth. Y Parchedig John Matthews oedd yn gweinyddu.

Ar fore Sul, 9 Medi yng Ngwasanaeth y Cymun Bendigaid bedyddiwyd Guto Pritchard, gyda'r Parchedig John Matthews yn arwain y gwasanaeth a Mr Geraint Gill wrth yr organ. Bendith Duw ar Riley a Guto.

Offeren Dathliad Pen-blwydd

Ar fore Sul, 9 Medi roedd yn ddiwrnod arbennig iawn i aelodau Maes-y-Groes. Roeddent yn dathlu pen-blwydd yr eglwys yn gant ac ugain mlwydd oed. Y Gwir Barchedig Andrew John a'r Parchedig John Matthews oedd yn cyd-wasanaethu a'r Esgob oedd yn traddodi'r bregeth, gyda Mr Geraint Gill wrth yr organ. Roedd yn wasanaeth hyfryd iawn a'r canu yn ardderchog, gydag aelodau o'r tair eglwys yn cymryd rhan. Ar ôl y gwasanaeth roedd gwledd wedi ei pharatoi i bawb yn yr ysgoldy. Roedd y byrddau'n werth eu gweld a'r bywd yn ardderchog. Diolch o galon i Phyllis, Muriel, Bethan a'r tîm am bopeth.

Gŵyl Ddiolchgarwch

Roedd Eglwys Maes y Groes wedi ei haddurno yn hyfryd iawn fel arfer ar gyfer Gŵyl Ddiolchgarwch bore Sul 23 Medi a daeth nifer dda i wasanaeth y cymun am 11.00 y bore. Y Parchedig Gary Peel oedd y pregethwr gwadd a'r Parchedig John Matthews oedd yn arwain y gwasanaeth, gyda Mr Geraint Gill wrth yr organ. Diolch o galon i John, Sue ac aelodau'r eglwys am eu croeso ac am y lluniaeth ysgafn cyn ffarwelio.

Fore Sul, 30 Medi, cafodd aelodau o Eglwys y Santes Fair, Tregarth eu Cyfarfod Diolchgarwch. Gwasanaethwyd gan y Parchedig John Matthews a Keith Irons, Tregarth oedd yn pregethu a'r Ficer oedd wrth yr organ hefyd. Diolch i Linda a Rosemary am y baned a'r bisgedi ar ôl y gwasanaeth ac am y croeso unwaith yn rhagor.

Hysbysiad: Ysgol yr Hendre, Trelew, Patagonia, Yr Ariannin

Mae'r ysgol uchod yn chwilio am athrawes/athro Cymraeg, sydd wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer addysgu mewn Ysgol Gynradd i weithio am 10 mis yn Ysgol yr Hendre yn ninas Trelew ym Mhatagonia. Bydd y tymor gwaith yn cychwyn ar ddiwedd mis Chwefror ac yn dod i ben ym mis Rhagfyr, gyda phythefnos o wyliau ym Mis Gorffennaf.

Os oes gennych chi ddi-ddordeb yn y swydd, neu os ydych chi am dderbyn mwy o fanylion cysylltwch â'r ysgol a/neu anfonwch at: ysgolyrhendre@gmail.com. Y dyddiau cau i ymgeiswyr yw 30 Tachwedd.

Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog

Gwasanaethau

Mis Hydref

21 Parch. Dafydd Wyn Wiliam
28 I'w gyhoeddi

Mis Tachwedd

04 Mr Glyn Owen
11 Parch. John Pritchard
18 Mr John Closs

Oedfaon am 2.00 .
Croeso cynnes i bawb.

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Gwella
Derbyniodd Rhian Haf, 36, Bro Emrys driniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar ond mae'n gwella erbyn hyn.

Eglwys Maes y Groes

(Ymddiheuriadau i gyfeillion Eglwys Maes y Groes am y camgymeriad yn rhifyn Medi.)
Ar y dydd Sadwrn olaf ym mis Gorffennaf cynhaliwyd Garddwest yn Ficerdy Pentir. Er garwed y tywydd roedd nifer yn bresennol a llawer o stondinau gwahanol. Gwnaed elw o £1200 i'w rannu rhwng y tair Eglwys. Diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u rhoddion.

Yn dilyn y gwasanaeth undebol yn Eglwys St Tegai ar y Sul olaf o fis Gorffennaf aeth rhai ohonom i westy'r Faenol ym Mhentir a chael cyfle i gael sgwrs a mwynhau cinio blasus. Diolch unwaith eto i Phyllis Davies am drefnu'r achlysur.

Ar bawn braf ar y cyntaf o fis Medi cynhaliwyd barbeciw yn yr Ysgoldy wedi ei drefnu gan David Pritchard, ac ef a Dennis Wright oedd yn gyfrifol am goginio'r bwyd blasus. Diolch iddynt ac i'r tîm yn y gegin am eu gwaith caled.

Llongyfarchiadau i Donna Marie Williams o Rachub a Dylan Thomas o Amlwch ar achlysur eu priodas ar y Sadwrn cyntaf ym mis Medi. Dymunwn pob hapusrwydd iddynt yn y dyfodol.

Ar fore Sul y 9fed o Fedi cynhaliwyd gwasanaeth coffa i Betty Ellis, Cil Marian, Llandegai a hefyd pen-blwydd yr Eglwys yn 120 mlwydd oed. Arweiniwyd y gwasanaeth Cymun gan ein ficer y Parchedig John Mathews a thraddodwyd y bregeth gan ein Esgob y Gwir Barchedig Andrew John gyda Geraint Gill wrth yr organ. Cysegrodd yr Esgob lenni

newydd naill ochr i'r allor a phenllynydd newydd o flaen yr allor. Yn dilyn y gwasanaeth cafodd pawb gyfle i fwynhau'r bwffe yn yr Ysgoldy. Diolch i Phyllis Davies am drefnu'r achlysur ac i bawb a gyfrannodd at y bwyd. Hoffai'r teulu ddiolch i bawb am y croeso a dderbyniwyd ar y diwrnod a'r caredigrwydd er cof am Betty.

Cynhaliwyd ein gwasanaeth Diolchgarwch ar y 23ain o'r mis a braf oedd gweld aelodau Eglwys St Tegai wedi ymuno gyda ni. Arweiniwyd y gwasanaeth gan ein ficer y Parchedig John Mathews a Geraint Gill wrth yr organ. Traddodwyd y bregeth gan Garry Peel, warden y caplandy anglicanaidd. Cafwyd lluniaueth ysgafn yn dilyn y gwasanaeth.

Braf oedd gweld John Morrell wedi gwella yn ddigon da i ddod yn ôl i'r Eglwys. Treuliodd beth amser yn Ysbyty Gwynedd a'r Eryri yn ystod y misoedd diwethaf.

Derbyniodd Alan Hughes 1, Bro Emrys driniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar ac erbyn hyn yn gwella'n raddol. Gwellhad buan hefyd i Val Withers, Cae Bach a Phyllis Davies, Penrhos, sydd wedi bod yn cwyno'n ddiweddar.

Capel Bethlehem, Talybont

Hydref 21 : Mr. Alan Wyn Roberts ; Hydref 28 : Mr. Eurwyn Griffiths ; Tachwedd 4 : Gweinidog ; Tachwedd 11 : Parchg. Gwynfor Williams ; Tachwedd 18 : Parchg. Eifion Wyn Williams. Oedfaon am 2.00 oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Bore Coffi
Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant ein Bore Coffi a gynhaliwyd yn Neuadd Ogwen ar 6 Hydref. Gwnaed elw o £540 tuag at y gost o baentio'r capel a tharmacio'r llwybr at y festri. Diolch o galon am yr holl gefnogaeth.

Dathlu'r 150
Cawn hanes y dathliadau yn y rhifyn nesaf.
Bydd yr Arddangosfa Luniau yn aros ar y wal yn y festri am beth amser eto, er mwyn rhoi cyfle i ragor o bobl ei gweld. Os oes gennych ddiddordeb mewn cael copi o'r llyfryn "Dathlu Canrif a Hanner y Capel Presennol" a gyhoeddwyd yn arbennig i ddathlu'r achlysur hanesyddol hwn, cysylltwch â Neville Hughes (600853). Derbynnir rhoddion tuag at y costau!

Rhiwlas

John Huw Evans,
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 352835

Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Tony a Glenys Jones, Bron y Waun, wrth iddynt ddathlu dod yn daid a nain i Ewan, mab bychan Rhian eu merch a'i phriod Barry. Bydd y baban newydd yn gwmni derbynol iawn i'w chwaer Lydia. Dymunwn yn dda i'r teulu yn eu cartref newydd yn Llanelwy.

Yr un yw'r llawenydd ar aelwyd Dafydd a Sally Whyte, Cae Glas, Ganwyd Hywel Penri i'w mab Huw a'i briod Rhiannon Mair sydd wedi cartrefu ym Mhenygroes. Bydd gan Hywel Penri hefyd chwaer, Lleucu Mair, i fod yn gwmni iddo.

Mae'n ddiddorol clywed am hynt a helynt cyn-blant y pentref ar ôl iddynt adael cartref.

Marwolaeth

Yng nghartref nyrsio Penisa'r-waun ar 12 Medi, yn 89 oed, bu farw Rhiannon Evans o Gwenallt, 31 Bro Rhiwen - priod y diweddar Gruffydd Thomas Evans, mam Alwyn a Carys a chwaer Dyddgu. Bu gwasanaeth ei hangladd yn Amlogfa Bangor ar 20 Medi o dan arweiniad Mr Merfyn Jones, Caernarfon.

Yn ei deyrnged i Rhiannon, disgrifiodd Mr Tom Gwyn Jones hi fel un a neilltuodd ei hamser, ei doniau, a'i hegni i wasanaethu ei theulu, ei chartref a'i chymuned. Cyfeiriodd at y blynyddoedd o wasanaeth a roddodd i gapel Pïsgah. Bu'n organyddes, yn arolygydd ac yn athrawes yn yr Ysgol Sul. Byddai'n bresennol ym mhob cyfarfod noson waith, megis y Band of Hope a'r Seiat.

Yr un oedd ei theyrngarwch i'r digwyddiadau yn y pentref - y cymdeithasau llenyddol, cyfarfodydd a gynhelid yn y neuadd bentref, Merched y Wawr a changen leol Plaid Cymru. Bu hefyd yn barod ei chymorth fel 'Anti' yn yr ysgol feithrin.

Ond ei theulu a gai'r flaenoriaeth. Bu'n ddifflino yn ei gofal o Gruffydd, Alwyn, a Carys ac o'i hwyron, Siwan, Gareth ac Esyllt.

Rhiannon hefyd a fyddai yn anfon newyddion o Riwlas i Llais Ogwan. Gwnaed hynny o'r rhifyn cyntaf gan barhau tra parhaodd ei hiechyd.

Yn anffodus, gorfu iddi dreulio blynyddoedd olaf ei hoes yng Nghartref Nyrsio Penisa'r-waun, lle cafodd bob gofal.

Cydymdeimlwn yn gywir gyda Dyddgu ei chwaer, a fu'n neilltuol o ffyddlon yn ei hymweliadau â hi tra bu yn y cartref, a gydag Alwyn a Nerys, Carys ac Iorwerth a chyda holl gysylltiadau eraill y teulu.

Clwb Rhiwen

Cynhaliwyd dau gyfarfod o'r clwb yn ystod mis Medi. Yn y cyntaf cafwyd 'Moes a Phryn' pryd daeth yr aelodau â nwyddau i'w gwerthu fel y gallai eraill eu prynu. Gwnaed elw o £23 i'r clwb, Buwyd hefyd yn trafod arwyddion tywydd, rhai ohonynt yn gyffredin i sawl ardal ond eraill yn berthnasol i Riwlas yn unig. Testun amserol yn dilyn yr haf gwlyb a gafwyd.

Daeth Mrs Gaynor Ferry atom i'r ail gyfarfod ac fe gafwyd prynhawn diddorol iawn yn ei chwmmi. Soniodd yn bennaf am ei phlentyndod a'r fagwraeth ddiddorol a gafodd mewn adeilad arbennig iawn, sef goleudy Lynas. Mae'r goleudy wedi ei leoli uwchben y môr yn Llanelian, gerllaw Amlwch, Gwaith ei thad oedd cysylltu â'r llongau oedd ar eu taith i Lerpwl i sicrhau eu diogelwch. Gwnâi hyn trwy gyfrwng Morse Code, Soniodd fel y daeth hithau i adnabod nifer o'r llongau trwy ddarllen eu henwau gyda thelesgop, ac fel hyn y dysgodd ddarllen fel plentyn.

Merched y Wawr, Cangen Rhiwlas.

Bu edrych ymlaen at y tymor newydd ac fe'n croesawyd i'r cyfarfod cyntaf gan ein llywydd, Ann Roberts. Dywedodd ein bod wedi derbyn gwahoddiad i ymweld â changen Bethesda lle cawn weld gwaith crefftwyr lleol.

Ein gŵr gwadd oedd y Parchedig Huw John Huws a theitl ei sgwrs oedd Chwerw a Melys. Cafodd brofiadau chwerw pan oedd yn ddyfarnwr pêl-droed ond eto roedd yn hwyliog wrth adrodd straeon am ei ymweliadau â'r pentrefi ac yntau ond yn fachgen ysgol pan ddechreuodd ddyfarnu. Profiadau chwerw go iawn a gafodd wrth chwilio am loŷnnod byw ar y Gogarth.

Soniodd am yr amser y gofynnwyd iddo ymweld â mam a'i phlentyn yn yr hen Ysbyty Dewi Sant, y baban yn wael iawn ond trwy ryfedd wyrth daeth gwellhad. Profiad melys yn wir.

Profiad braf arall oedd gweithio ar fferm gloŷnnod byw yn Wentworth a chriw o Gymry, ar drip efo bysys Cae Lloi yn ymweld â'r atyniad.

Roedd pawb o'r farn ein bod wedi cael noson hynod o ddiddorol a difyr, Diolchwyd iddo gan Ann. Darparwyd y te gan Carys a Iona.

Byddwn yn cyfarfod ar yr ail nos Fawrth o'r mis yn y Neuadd a bydd croeso mawr i aelodau hen a newydd.

Tregarth

Gwenda Davies,
Cae Glas,
8 Tal y Cae, Tregarth
☎ 601062

Olwen Hills (Anti Olwen),
4 Bro Syr Ifor, Tregarth
☎ 600192

Gair o ddiolch

Dymuniad Mona a Gwynfor Thomas, 3 Bro Derfel, yw diolch o waelod calon i bawb am eu caredigrwydd yn anfon cardiau, blodau ac anrhegion ar eu pen-blwydd priodas aur, sef 50 o flynyddoedd priodasol ar Awst 25. Diolch yn arbennig i'r plant am drefnu noson ardderchog mewn gwesty ym Metws y Coed. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonoch gan obeithio y byddwch eich dau yn cadw mewn iechyd da.

Profedigaeth

Daeth profedigaeth i ran John Howard Jones a'r teulu, 37 Tal y Cae, pan fu farw ei frawd Thomas Merfyn Howard Jones, Llanfairfechan ar Awst 29 yn 64 mlwydd oed. Cydymdeimlwn gyda chi a'ch brodyr, sef Peter, Bryn, David a Paul yn eich hiraeth, a gyda'i blant, Helen, Andrew a Karl.

Daeth profedigaeth lem arall i Ena Morris Jones, Tal y Cae, pan fu farw ei brawd yn ddisymwyth ym Manceinion. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch chi a'r holl deulu.

Rhaglen Deledu o Neuadd Albert

Nos Iau, Medi 6, darlledwyd un o gyngherddau'r Proms o Neuadd Albert, Llundain, ar y teledu. Roedd y cyngerdd wedi cael ei gynnal Nos Lun, Awst 6. Cyngerdd o waith y cyfansoddwr Bernstein ydoedd, sef Bernstein Mass 105 a dyma'r perfformiad cyntaf o'r gwaith. Y prif leisydd oedd y bariton Morten Frank Larsen o Ddenmarc a'r unawdydd ifanc oedd Julius Foo o Lundain. Hefyd yn cymryd rhan oedd Corau plant Ysgolion Cynradd o bedair ysgol yn Ne Cymru, Actorion o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Caerdydd, Aelwyd y Waun Ddyfal o Gaerdydd, ynghyd â Chôr Ieuenticid Cymru, Cerddorfa Ieuenticid Cymru, Cerddorfa Genedlaethol Cymru a Chôr Cenedlaethol BBC Cymru. Roedd dau o gerddorion ifanc o Ddyffryn Ogwen yn rhan o Gerddorfa Ieuenticid Cymru, sef Gwyn Owen, 9 Tal y Cae, Tregarth sy'n fyfyrwr trwmpeid yn yr Academi Frenhinol yn Llundain a Patrick Rimes o'r Gerlan sy'n astudio cerdd ym Mhrifysgol Leeds ac yn chwarae'r fiola. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch. Rwy'n siŵr i'r profiad fod yn un gwerth chweil.

EGLWYS Y SANTES FAIR, Tregarth

Bore Coffi

Cynhaliwyd Bore Coffi llwyddiannus iawn yn Neuadd Ogwen ar 21 Gorffennaf gan wneud elw o £350. Diolch yn fawr iawn i drigolion Bethesda a'r Cylch am eu cefnogaeth a'u cyfraniad i'r Bore Coffi

Diolchgarwch am y Cynhaef – 30 Medi

9.45 yb – Cymun Bendigaid
5.00 yh – Hwylol Weddi ar Gân
Taer erfynir ar Gymry Tregarth i gefnogi'r Gwasanaeth traddodiadol hwn, gwan iawn yw'r gefnogaeth sydd wedi bod yn y gorffennol. Y mae'n bwysig diogelu ein traddodiadau Cymreig, a hwn yn un ohonynt.

Cydymdeimlad

Yn frawychus o sydyn ar 28 Awst, bu fawr Angus Jones, wŷr Mrs Myra Jones, Erw Faen, a'r diweddar Mr Jack Jones, ac yntau ond yn 34 oed. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at ei briod, Mrs Myra Jones ei nain, Keith a Susan ei rieni, Liam a Lucy ei frawd a'i chwaer a'r teulu oll yn eu galar a'u colled fawr.

Colled Fawr

Cydymdeimlir yn fawr â Brenda Hughes a'i brawd Gareth Jones ar goll i eu cartref mewn tân yn ystod yr haf. Er iddynt ddiodeff colled fawr, mae'n dda gwybod na ddaeth niwed i unrhyw un o'r ddau. Deallir bod ymdrechion yn lleol i'w helpu i ddodrefnu eu cartref newydd pan fydd hynny yn bosibl – yn fuan gyda gobaith.

Clwb Cant Y Gelli – Awst

£20 - 27 - Catrin Roberts
£10 - 40 - Owen T Jones
£10 - 50 - James Griffiths
£ 5 - 107- Mrs B Buckley

Merched y Wawr, Cangen Tregarth

John Elwyn Hughes, Bethel, oedd y gŵr gwadd yng nghyfarfod mis Hydref o Gangen Tregarth yn Ffestri Capel Shiloh, Nos Lun, Hydref 1 a'i destun oedd 'Hanes Lleol'.

Bu'n olrhain mwy o hanes y bardd a'r llenor Caradog Prichard a thrwy gyfrwng lluniau ardderchog o'r ardal, o deulu Caradog a'r gwrthrych ei hun cawsom ddsygu a mwynhau a sylweddoli cymaint o gymeriad oedd y Caradog go iawn.

Mae John Elwyn yn arbenigwr yn ein hanes lleol ac roedd yr hyn mae wedi'i ganfod am Caradog Prichard yn waith ysgolheigaidd ac yn ychwanegiad at hanes a diwylliant Dyffryn Ogwen.

Diolchwyd iddo am noson safonol a fwynhawyd yn fawr gan bawb a oedd yn y cyfarfod. Hyfryd oedd croesawu aelod newydd, sef Andrea Williams, Ffordd Tanrhiw. Genod y baned oedd Carys, Beryl, Alwena a Sara.

Bydd y cyfarfod nesa, Nos Lun Tachwedd 5, sef noson o waith llaw yng nghwmni Lynda Pritchard, Rachub, a hynny yn Ffestri Capel Shiloh am 7 o'r gloch.

CAPEL SHILOH

Gwasanaethau Shiloh am y mis nesa.

Ysgol Sul am 10.30 Oedfa'r Hwyr am 5.30

21 Hydref Gwasanaeth Teulu y Diolchgarwch am 10.30 Siaradwr Gwadd y Meddyg Connor Martin o Fangor fu'n gweithio yn Malawi am gyfnod.
28 Hydref Richard Lloyd Jones, Bethel
14 Tachwedd Y Parchedig Gwynfor Williams
11 Tachwedd Islwyn Hughes, Llangoed
18 Tachwedd Parchedig Olaf Davies, Llandegfan

Llwyddiant Prawf Gyrru

Llongyfarchiadau i Lois Angharad Jones, 30 Tal y Cae, am lwyddo i basio ei Phrawf Gyrru yn ddiweddar.

Prif Ferch

Cafodd Lois Glyn, Nant yr Eira, Tal y Cae, ei dewis yn Brif Ferch Ysgol Tryfan, Bangor, eleni. Da iawn chdi Lois.

Braichmelyn

Rhiannon Efans,
Glanaber, Pant, Bethesda ☐
☎ 600689

Triniaeth

Mae Steven Griffith, 9 Rhes Jâms, wedi cael dwy benglin newydd. Dymunwn wellhad buan iddo.

Glasingfryn Caerhun

Marred Glynn Jones
2 Stryd Fawr, Glasingfryn,
Bangor LL57 4UP
01248 351067
Marred567@btinternet.com

Bingo

Cynhaliwyd Noson Goffi a Bingo ar 5 Hydref yn y Ganolfan er budd Byddin yr Iachawdwriaeth a gwnaed elw o £98. Diolch yn fawr iawn i bawb am gyfraniadau ariannol a gwobrau a raffl at y noson. Bydd y Bingo nesaf ar 16 Tachwedd am 7.30 yh gyda'r elw yn mynd tuag at gronfa i roi cymorth i ferch fach ein postmon lleol Nigel Pickevance sydd ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Alder Hey yn Lerpwl.

Clwb Cant y Ganolfan – Medi

£20 - 44 - Mrs Grace Mudd
£10 - 22 - Mrs Rosemary Williams
£ 5 - 116 - Hannah Williams

Sefydliad y Merched

Agorwyd tymor yr Hydref ar Fedi 12 dan lywyddiaeth Mrs Ingrid Farrer. Croesawyd yr aelodau er bod nifer yn absennol. Braff oedd cael croesawu un aelod newydd sef Liz Hall i'n plith.

Llongyfarchwyd Mrs Elsie Oswald Jones ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn 80 oed. Pen-blwydd Hapus Elsie!

Diolchwyd i Mair Griffiths am drefnu'r noson yng ngerddi Treborth yn ystod Mis Gorffennaf. Croesawyd Alan a Paul o Moelyci, y ganolfan amgylcheddol leol, a chawsom sgwrs ddiddorol ganddynt am y gwaith arbennig sy'n mynd ymlaen yno. Maent yn derbyn gwastraff gwyrdd "green waste" i'w droi yn "gompst" fesul tunelli bob wythnos. Mae'r llwyth yn cael ei ddioldi a'i falu a'i adael i sefyll, gan ei droi yn aml am 5-6 mis cyn bydd y compost yn barod i'w fagio a'i werthu. Paul sy'n gyfrifol am dyfu llyisiau, ffrwythau, a blodau o bob math.

Mae Moelyci yn dibynnu llawer ar wirfoddolwyr i'w helpu i lwyddo ac edrychwn ymlaen at ei gweld yn dechrau prosiect newydd sef gwerthu coed Nadolig, cynhyrchu mêl a gwneud jam yn y flwyddyn newydd. Breuddwyd a bwriad Alan a Paul ydi adnewyddu'r hen feudy a'i droi yn gegin a chaffi lle bydd cynnyrch Moelyci yn cael ei ddefnyddio.

Yn y cyfamser maent yn llawn brwdfrydedd yn canolbwyntio ar y llwybr dreftadaeth, yn cynnal gwersi a chyrtsiau a derbyn grwpiau o blant ysgol i ymweld â'r ganolfan. Diolchwyd iddynt gan Mrs Sarah Flynn a chafwyd paned wedi ei baratoi gan Mrs Grace Mudd a Miss Margaret Griffith. Mae croeso bob amser i aelodau newydd ymuno â ni.

Pentir

Anwen Thomas,
Min yr afon
11 Rhydygroes, Pentir
☎ 01248 355686

Eglwys Sant Cedol

Clwb 100 Mis Gorffennaf

1af Rhif 68 Alun Griffith, Pentir
2ail Rhif 9 Beryl Williams, Bethesda
3ydd Rhif 6 Lyndon Miles, Pentir.

Clwb 100 Mis Awst

1af Rhif 35 Margaret Williams, Rhiwen
2ail Rhif 28 David Roberts, Llanberis
3ydd Rhif 20 Rodger Butler, Abertawe

Clwb 100 Mis Medi

1af Rhif 13 Richard Thomas,
Llanfairfechan
2ail Rhif 6 Lyndon Miles, Pentir
3ydd Rhif 2 Kim Roberts, Rhiwlas

Gwellhad

Fel Eglwys anfonwn ein cofion at Sharon, Pat ac Anwen, y tair ddim wedi bod yn dda eu hiechyd yn ddiweddar. Brysiwch wella y tair ohonoch.

Ffair Nadolig

Bydd y Ffair Nadolig eleni yn cael ei chynnal ar brynhawn Sadwrn 1 Rhagfyr am 2 o'r gloch yng Nghanolfan Glasinfryn. Croeso cynnes i bawb.

Mynydd Llandygái

Theta Owen.
Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái.
☎ 600744

Cartref Newydd

Dymuniadau gorau i Marlyne a Ronald Parry sydd wedi symud i Fron Bethel, Rachub, ar ôl bod yn byw ym Mynydd Llandygái am 30 o flynyddoedd. Gobeithir y byddwch yn hapus iawn yn eich cartref newydd.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Siôn ac Ellen, Ffordd Hermon, ar enedigaeth efeilliaid, Elliw ac Ynyr. Brawd bach i Gruff.
Pob hwyl a dymuniad da i chi fel teulu.

Ganwyd bachgen bach i Llinos ac Aaron, Bethesda, sef Cai Ogwen, wŷr bach i Ann a Brian, Tan y Bwlch. Mae Ann a Brian yn Nain a Thaid i efeilliaid Siôn ac Ellen. Pob hwyl i chi fel teulu a llongyfarchiadau i Rene Williams, Hen Bost, ar ddod yn Hen Nain i'r tri bach.

Pen-blwydd

Llongyfarchiadau i Glyn Morris a'i efail Annwen ar eu pen-blwydd yn 0 oed. Pob hwyl a dymuniadau gorau i chi.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd ddim yn rhy dda eu hiechyd ar hyn o bryd. Dymunwn adferiad buan i chwi.

Hel Braich

Hanes y 1st Llanllechid Airborne Division, neu daith mewn hofrennydd gan Wynne Roberts, Bryn Difyr, Braich Talog, Tregarth.

Yr arferiad oedd cychwyn am funud wedi hanner nos, nos Sul (rhag torri'r Saboth), a cherdded i ben Garnedd Llewelyn i fod yno pan oedd yr haul yn codi. Yna hel y ddwy ochr i Fuarth y Braich, didol pawb i'w fuarth. Yna, wedi mynd am yr ochfa, pawb am adra.

Trefnodd Max Taylor, oedd gyda Llu Awyr y Fali, i ni gael ein cludo yn yr hofrennydd, rhag gorfod cerdded. Cyfarfod yng Nhae Llyn Bryn Owen am 6.00 y bore. Hedfan i Gwm Pen Llafar, niwl yn y pen-draw. Yn ôl dros Braich Melyn, Nant Ffrancon, Llyn Ogwen, Cwm Glan Llugwy ac i Ben y Garnedd. Y niwl wedi clirio a chychwyn hel. Profiad mawr oedd gweld yr holl ardal o'r awyr a phawb yn chwifio lliain bwrdd a thyweli, fel pryfaid mân ar y llawr.



Sartsiant Green dynnodd y llun – O'r chwith: Max yn eistedd, Wynne, y Peilot, Lt. Crawford, Arnold, Willie Bryn Owen, ac Edgar. Nid oes neb ond fi ar ôl yn awr.

Diwrnod Cneifio ym Modesi

Dyma lun diwrnod cneifio ym Modesi yn ystod y pumdegau. Llauer o ddiolch i Mrs Maggie Rawson Jones, Rhiwlas, a Mrs Doris Williams, Maes Caradog, am roi enwau i'r cneifwyr.



Rhes Gefn: Trefor Dolawen; John (mab Trefor); Gruffydd Roberts, Braich Tŷ Du; Wil Dafydd, Gwern Gof; John Jones, Maes Caradog; Anhysbys; Wil Bodesi; Emyr Jones, Blaen y Nant; Dic Bodesi; Anhysbys. **Rhes Flaen:** Hugh Williams, Mynydd Llandygái; Gwenda (merch Trefor Dolawen); Anhysbys; Bob (mab Trefor Dolawen; John Jackson, Tal-llyn Ogwen.

Gyda diolch i Alan Davies, Tyddyn Canol am anfon y llun at y Llais.

Gallai eich hysbyseb

Chi

fod yma

Cysylltwch â
Neville Hughes 600853**LONDIS
BETHESDA**

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr

7 diwrnod yr wythnos

Gorsaf betrol

BERAN

Deiniolen

Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor bob dydd 24/7

Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau newydd
Cardiau pen-blwydd • Melysion
Tocynnau loteriGwasanaeth PAYPOINT ar gyfer
trydan, nwy, ffonau symudol,
trwyddedau teledu ayyb**JOHN ROBERTS**

Paentiwr

Papurwr

Teilsiw



Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995

Gareth Williams
Trefnydd AngladdauCrud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707

GWASANAETH DYDD A NOS

**CAD
COMPUTERS**Cyfeillgar, Fforddiadwy, Lleol,
Trwsio iPhone, iPod, iPad
Dileu Feirws, Gwasanaeth, Cyngor
Gliniadauron (Laptops) a P.Cs ar
werth

BETHESDA 01248 601285

BENLLECH 01248 852578

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymwr Trydanol

Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda

Gwynedd LL57 3ST

Ffôn: 01248 602480

Y Douglas Arms

* Lluniaeth i Bartïon * Te Cynhebrwng *

* Gardd Gwrw * Te a Choffi *

Oriau Agor

Llun - Gwener: 6.00 - 11.00

Sadwrn: 3.30 - 12.00

Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 - 11.00

01248 600219

www.douglas-arms-bethesda

Cewch groeso cynnes gan
Gwyn, Christine a GeoffreySTEPHEN
JONESTREFNYDD
ANGLADDAUHefyd ymgymryd
â gwaith cerrig beddi:
adnewyddu neu o'r newyddGweithdy Pen-y-bryn
Cefn-y-bryn, BethesdaFfôn: gweithdy 600455
gartref 602455
personol 07770 265976
Bangor 360001

Gwasanaeth personol ddydd a nos

BYSUS

D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195

BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATÍ.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS**C.L. JONES**

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045

Caernarfon 01286 676070

Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol

Stoc helaeth ac amrywiol

Croeso i gyfrifon masnachol

Staff cyfeillgar a phroffesiynol

Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768

LLanrwst 01492 640794

Siop yn 01492 640794

Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni

Atgofion o'r Gorffennol

**Diolch i Mr Wyn Thomas, Abertawe (Gerlan gynt)
am anfon dau lun atom sydd â hanes diddorol iawn iddynt.**

Yn ddiweddar cefais hyd i nifer fawr o luniau fy niweddar rieni, Ben a Dorothy Thomas, 6/3 Stryd Goronwy, Gerlan a thybiwn fod rhai o ddiddordeb i ddarllenwyr Llais Ogwan.



Mae un llun o fy nhad gyda chriw o weithwyr y Cyngor Sir a oedd yn tarmacio'r A5 ger Llyn Ogwen yn y 50au gyda rhai o'r bobl a oedd yn digwydd mynd heibio ar y pryd.

Llun o gyn-garcharwr y rhyfel a geir yn y llun arall, sef Franz Pongratz, (a welir yma gyda'i wraig ar ddiwrnod eu priodas ym mis Hydref 1949) ac a ddaeth yn ffrindiau gyda'm teulu.

Franz oedd yr unig filwr rhyfel o'r Almaen i mi ei adnabod tra roeddwn yn blentyn, ac un clên iawn oedd o. Fel Karl yng Nghysgod y Cryman, cafodd Franz ei ddal a'i garcharu, ac ar ddiwedd yr ymladd fe gadwyd y carcharorion yma am gyfnod a'u gorfodi i weithio ar ffermydd. I ffarm Tŷ Gwyn yn Nant Ffrancon aeth Franz. Gan fod fy nhad yn 'lengthman' i'r cyngor sir yn gofalu am y ffordd bost o Bont-y-Twr i Llyn Ogwen, fe ddaeth i adnabod Franz a dod yn ffrindiau ag ef. Roedd yn dod acw am swper a byddai mam yn trwsio ei ddillad. Er ei fod yn giamstar gyda thŵls, ac wedi gwneud teganau i mi, ni allai drin nodwydd gan iddo ddiweddef o losg rhew yn Rwsia. Dwi'n ei gofio yn ei got lifrau mawr gyda darnau o ddefnydd melyn siâp triogl wedi'u gwnïo arni i ddangos mai carcharor rhyfel oedd o.



Dwi'n cofio fo'n dweud ei fod yn hoff o Fethesda am nad oedd neb yn cymryd sylw ohono nac yn bod yn gas wrtho, ond nid oedd yn hoff o Fangor am fod pobl a thuedd i'w ddilorni wrth ei weld â thrioglau melyn ar ei got. Dwi'n cofio ei noswaith olaf yn y Gerlan ac yntau'n rhoi £1 i mi, ffortiwn i hogyn 6 neu 7 oed.

Fe fu Franz a'm rhieni'n cysylltu'n rheolaidd am flynyddoedd. Y tro nesaf, a'r olaf, i mi ei weld oedd ym 1973 yn ei gartref yn Ingolstadt, nepell o Dachau, ar bwys y Danube. Roeddwn wedi mynd i Munich gyda Gwyn Erfyl ac wedi cael hyd i'w rif ffôn. Gofynnais i'r gwesty gysylltu â fo a gofyn iddo gyfarfod trên o Munich, ond heb esbonio pam. Pan ddeuthum oddi ar y trên, fe welais i o ar yr orsaf. Roeddwn yn disgwyl gweld dyn mawr, tal, sef atgof plentyn ohono, ond un byr oedd Franz. Fe gerddais ato a dweud wrtho pwy oeddwn a mawr oedd y croeso. Treuliais ddiwrnod yn ei gartref a chael cyfarfod ei deulu. Wrth eistedd i lawr i ddechrau bwyta, dyma Franz yn dynwared fy nhad gan gynnig "brechdan" am fod dad yn credu'n gryf bod yn rhaid cael brechdan gyda phryd er mwyn arbed camdreuliad.

Dwy agwedd wahanol iawn ar y rhyfel - teithio heibio erchylltra Dachau at lan y Danube i gwrdd â chyfaill a fu unwaith yn elyn.

Wyn Thomas, Abertawe

Nyth y Gân

Pysgotwr Cimychiaid

Efo gwylan fe'i gwelwch yn rhannu
Yno'r hen dawelwch,
Ac yma gyda'i gimwch
Mor ddi-stŵr yw'r gŵr a'i gwch.

Mat Racs

Bu'n siwt ar gyfer Suliau
A'r parchus briodasau;
Un raenus ydoedd hi'n ei byd
A hefyd mewn c'nebryngau.

Aeth hi i ddechrau sgleinio
R'ôl amser maith o wisgo,
A mynd a wnaeth yn siwt-bob-nos
Gan ddangos ôl y bodio.

Sawl clwt a roddwyd arni,
A thlodaidd iawn oedd rheini;
A'r gŵr a'i gwisgodd hithau'n frau,
A'r gorau gadd ohoni.

Yn hongian yn y caban
Ar hoelen 'nawr mae'r druan,
A charpiog iawn ei gwedd i gyd
Ym myd y llwch a'r llechan.

Nid yma yw ei diwedd,
Un fedrus efo'i bysedd
I'w throhi hi'n fat yw gwraig y tŷ
Wrth glymu yr edafedd.

Hel Llus

Diflannodd hen arferion
O gasglu'r perlau duon,
A chwith yw meddwl am y rhai
A chwiliai dir y goron.

Bu'r plant yn llaw'r rhieni
Yn troedio'r gwyrddion lwyni
Ac yn penlinio ar y tir
Am hir rhwng llwydion feini.

Y bysedd bach a'r bodiau
Fu'n prysur lenwi'r boliau
Yn sŵn y fref a'r sgwrsio braf
A'r haf oedd ar ei orau.

Er cymaint hwyl a phleser
Nid hawdd oedd llenwi'r piser,
Ond gwobr fawr oedd teisen lus,
Mor flasus oedd bob amser.

Naid y Brithyll

Mae o draw'n creu modrwyau o neidio
O hyd am ei brydau
A hi'n haf a ni'n mwynhau'r
Melys bleserus oriau.

Dafydd Morris

.....

Ateb Howard Huws

Y mâl a là Braichmelyn yw'r siwgrwr
Dry'r saig yn ddanteithyn;
Ymylau'r afal melyn
Nid uwd oer yw croeso dyn.

Goronwy Wyn Owen

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

Meithrin menter gymdeithasol leol
Am gymorth:
i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli
cysylltwch â
Mantell Gwynedd



- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyio ar gyfer
partion o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caff neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partion
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.

Ffoniwch
01248 602550
e-bost : karena@agoriad.org.uk

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Cerbydau Penrhyn
CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

Oriel Cwm
Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



Blodau Hyfryd
7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ ☐ 602112 *(gyda'r nos 602767)*
Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

MODURDY
FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchenogion
I.D.Hughes ac A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ **600723**
Ffacs: **605068**

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎ **601031**

MODURON
PANDY
Cyf.

Tregarth
Gwasanaeth ♦ Atgyweirio
Canolfan 'Unipart'
M.O.T.

Ffôn: **01248 600619 (dydd)**

Ymgymwrwr adeiladu a
gwaith saer

Ronald Jones


Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ **01248 601052**

Blodau Racca

PENISARWAUN

Planhigion gardd a basgedi crog o'r
ansawdd gorau
- gan hogan o Rachub

Ffôn: 01286 870605



Posh Paws
Tacluso Cŵn

Busnes lleol

Prynhawniau neu Nosweithiau
4.00 - 10.00
Dydd Sul 8.00 a.m - 4.00 p.m.
Gwasanaeth casglu a danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
01248 671382 neu 07935324193
Ebst: juliaposhpaws@btinternet.com

O'r Cyngor

Cyngor Bethesda

Polisi Rhoddion neu Nawdd i sefydliadau elusennol a mudiadau lleol

Dylai'r Cyngor, fel rheol, ganiatáu nawdd i fudiadau a sefydliadau lleol o fewn Dyffryn Ogwen yn unig, ond cytunwyd y dylid rhoi ystyriaeth arbennig i rai sefydliadau cenedlaethol megis Yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Urdd.

Ceisiadau o hyn ymlaen i gyrraedd y Clerc erbyn diwedd mis Rhagfyr, gyda'r dyraniadau i'w gwneud yng nghyfarfod mis Ionawr o'r Cyngor. Dylid nodi'r newid hwn yn Llais Ogwan.

Pan dderbynnir cais, dylid anfon llythyr o gydnabyddiaeth at bob ymgeisydd gan egluro'r drefn ddyrannu ac i ofyn am gopi o'r adroddiad ariannol neu gyfriflen

Eisteddfod yr Urdd 2012

Hoffai'r Cyngor ddiolch i'r ysgolion lleol am addurno'r ardal a rhoddi lluniau yn y siopau lleol, yn ogystal â llongyfarch Ysgol Llanllechid am ddod yn drydydd a'r plant a fu yn fuddugol yn unigol a phawb arall wnaeth gystadlu.

Cyfleoedd i Hybu Lles

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar ganllawiau statudol newydd dan Adran 3(6) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ar y pŵer disgrisiwn sydd ar gael i awdurdodau unedol a chynghorau cymuned i hybu neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu hardal. Mae'r canllawiau hyn yn rhoi esboniad o'r pŵerau lles, a'r hyn y maent yn ei olygu i awdurdodau lleol. Cliciwch ar y linc isod am fwy o fanylion:-
http://www.onevoicewales.org.uk/n_ewyddion/canllawiau-statudol-i-awdurdodau-lleol-yng-nghymru?set_language=cy

Strategaeth Tai Partneriaeth

Gwasanaethau Tai Gwynedd Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn adolygu ei Strategaeth Tai Lleol ac wedi edrych ar faterion tai yn y Sir. Hoffent wybod beth yw eich barn ar y Strategaeth, fydd yn cael ei harwain gan Bartneriaeth Tai Gwynedd. Mae angen cyflwyno'r ymatebion erbyn dydd Mawrth, 30 Hydref 2012. Am fwy o fanylion ynglŷn â'r Strategaeth neu'r ymgynghoriad gellir cysylltu â'r Uned Polisi Strategol Tai, yn Adran Strategol a Gwella Cyngor Gwynedd drwy ffonio (01286) 679289 neu e-bostio UnedStrategolTai@gwynedd.gov.uk

Paneli Dinasyddion ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig llawer o newidiadau yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Mae'r Llywodraeth yn sefydlu paneli ledled Cymru er

mwyn i bobl ddweud wrth y Llywodraeth ym mha ffordd y gellir gwella'r gwasanaethau a ddefnyddient.

Gofynnwyd i Gyfranogaeth Cymru, sefydlu'r paneli a chynorthwyo aelodau o'r paneli. Maent yn gwahodd pobl sy'n defnyddio'r Gwasanaethau Cymdeithasol, gofawyr y rheini sy'n defnyddio'r Gwasanaethau Cymdeithasol a phobl eraill sydd â diddordeb yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Cymru, i wneud cais i fod yn aelodau o'r paneli hyn.

Cynllun Llifogydd Cymunedol ar Gyfer Bethesda

Derbyn cais swyddog o Asiantaeth yr Amgylchedd i ddod i drafod yr uchod gyda'r Cyngor.

Mantell Gwynedd - Cymraeg Efo'n Gilydd-

Cynnig grant hyd at £100 o bunnoedd i hyrwyddo dysgwyr i gymryd rhan mewn cyfarfod o fudiadau lleol. Dyddiad cau ar gyfer cyfnod y gaeaf fydd 26 Hydref 2012.

Gorchmynion Rheoli Cŵn

Ymgynghoriad cyhoeddus ar Orchmynion rheoli Cŵn newydd a'r posibilrwydd o'u gweithredu a fydd yn gwahardd cŵn o rai mannau, rhoi pŵerau i wardeiniaid ofyn i bobl roi tennyn ar eu cŵn ac ymestyn y rheolau cyfredol sy'n gofyn i berchnogion lanhau ar ôl eu cŵn. Roedd y Cyng Paul Rowlinson am fynd i'r cyfarfod ar y mater yng Nghanolfan Hamdden Arfon ar 1 Hydref.

Partneriaeth Cwm Idwal

Llythyr ac argraff gan arlunydd o ddatblygiadau'r adeilad newydd ger Llyn Ogwen. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Lansio ymgynghoriad 'Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid'. Am gopi ewch i www.trafodaethbetsi.wales.nhs.uk Penderfynwyd fod pob aelod i edrych ar yr ymgynghoriad yn fanwl a chodi unrhyw sylwadau yng nghyfarfod nesaf Y Cyngor.

Cyngor Cymuned Llanllechid Cyfarfod Gorffennaf 2012

Ymddiswyddo

Oherwydd rhesymau personol ac ymrwymadau eraill fe dderbyniwyd ymddiswyddiad gan y Cadeirydd y Cynghorydd Meirion Davies. Diolchwyd iddo am ei waith ac efallai y bydd yn gallu ail ymuno â'r Cyngor Cymuned yn y dyfodol. Etholwyd Y Cynghorydd Megan Tomos i'r swydd Cadeirydd.

Bin Sbwriel

Penderfynwyd gwneud cais i'r Cyngor Sir i osod bin sbwriel yn y cae chwarae ym mhentref Talybont.

Cais Cynllunio

Cafwyd un cais cynllunio sef gwaith peirianyddol i greu llwybr aml ddefnydd o Bont Coetmor i Bont Sarnau. Penderfynwyd cefnogi'r cais.

Cyfarfod Medi 2012

Cyngor Cefn Gwlad

Derbyniwyd rhybudd cynnar gan y Cyngor Cefn Gwlad o'u bwriad i adolygu mapiau mynediad agored ar gyfer mynydd-dir, gweundir, rhostir, downs a thir comin Cymru. Rhoddwyd cyfeiriad gwefan er mwyn edrych ar y mapiau ac os oes gan unrhyw un sylwadau dylid eu gwneud cyn Tachwedd 23, 2012. Fe gynigiodd Margaret Fernley a Kevin Williams edrych ar y mapiau ac yna ymateb yn y cyfarfod nesaf.

Menter Iaith Dyffryn Ogwen

Derbyniwyd cais gan Fenter Iaith Dyffryn Ogwen am gefnogaeth gan y Cyngor Cymuned i sicrhau penodiad person a fyddai'n gallu cyfathrebu drwy'r Gymraeg i swydd Rheolwr yng Nghanolfan Feddygol Yr Hen Orsaf, Bethesda a hefyd cais am gefnogaeth gan y Cyngor Cymuned i sicrhau penodiad person a fyddai yn gallu cyfathrebu drwy'r Gymraeg i swydd Rheolwr a Goruchwyliwr yn Swyddfa Bost Bethesda. Penderfynwyd yn unfrydol i gefnogi'r ddau gais.

Tybed a fyddai gennych ddi-ddordeb mewn teipio ar gyfer y Llais?

Angen sglilau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Telerau rhesymol.
(07902 362213) post@tasg.co.uk

Plaid Cymru, Cangen Dyffryn Ogwen

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod mis Medi gan y cadeirydd Paul Rowlinson. Anfonwyd ein cofion at Mrs Margaret Rees, Rachub, wedi iddi gael damwain a thorri ei chlun. Gobeithio y bydd yn gwella'n fuan.

Trafodwyd y noson o Ocsiwn Addewidion sydd i'w chynnal yng Nghlwb Rygbi Bethesda ar nos Wener, 9 Tachwedd. Cafwyd syniadau pur helaeth gan y Cyng. Dafydd Meurig, ac rydym yn gobeithio am noson lwyddiannus.

Wedi ymgynghori â'r Bwrdd Iaith ynglŷn â swyddi yn yr ardal, sylwyd na fu penodiadau i rai swyddi yn cwrdd â'n gofynion. Da yw deall bod y Feddygfa wedi penodi person sy'n gallu'r Gymraeg.

Cafodd gwelliant a gynigwyd gan y Cyng. Dafydd Meurig ynglŷn â phwerau Ofcom ei eilio a'i gymeradwyo yn y Gynhadledd Flynyddol.

Daeth cwynion i sylw cynghorwyr am "rave" a ddigwyddodd yn Tynal Tywyll ac ysgrifenyddwyd at yr heddlu gan bod nifer o drigolion yn cwyno.

Achosodd y ddamwain ddiweddaraf ym Mryn Bella gryn bryder a bydd Plaid Cymru yn pwyso am welliannau pellach i'r safle. Diolch i Huw Griffith, archwiliwr ffyrdd yr heddlu, a'r gwasanaethau brys am eu gwaith arbennig.

Cynhaliwyd Bore Coffi llwyddiannus fore Sadwrn 29 Medi yn Neuadd Ogwen. Diolch i bawb.

Cofiwch am yr Ocsiwn Addewidion ac edrychwch am bosteri a manylion. (Gweler yr hysbysed ar dudalen 17)

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ddechrau mis Medi cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus yn Neuadd Ogwen, gyda stondinau, cystadleuaeth a chwmmi ein cyn-aelod seneddol (Betty Williams). Gwnaed elw sylweddol a chafwyd bore pluserus.

Tua diwedd y mis cynhaliwyd y cyfarfod misol arferol a chafwyd yr adroddiadau arferol, gan gynnwys adroddiad am Gyngor Gwynedd gan y Cynghorydd Gwen Griffith (e.e. rhai o weithwyr y Cyngor Sir yn colli eu swyddi ac yn apelio) ac am gyngor Bethesda gan y Cynghorydd Walter Williams (e.e. gwaith Partneriaeth Ogwen i wella Stryd Fawr Bethesda).

Mynegwyd pryder nad yw pawb sydd ar leoliad gwaith budd-dal yn cael costau teithio gan y cyflogwr.

Clywyd bod Peter Clarke (Tregarth) yn mynd i gael tystysgrif gan y Plaid Lafur am hanner canrif ddi-dor o fod yn aelod gweithgar ac felly ni fydd yn gorfod talu'r tanysgrifiad blynyddol yn y dyfodol.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 28 Hydref am 7.30 pm yng Nghanolfan Cefnfaes.

Croesair Hydref 2012

AR DRAWS

1. Cerdded ar ôl pawb arall a thynnu rhywbeth ar eich ôl. (5)
4. Yn y Cynulliad Cenedlaethol. (5)
10. Rhaid gwneud rhywbeth i helpu chwaer Martha; mae wedi cael ffrit. (7)
11. Chwaer Martha wedi dod ati ei hun, efallai. (5)
12. Dechrau byw ym mhellafoedd ynys y saint, ar ôl dweud rhywbeth anghyfreithlon am rywun. (5)
13. Cytuno i deithio. (3-4)
15. Pennaeth y fynachlog. (4)
17. Yr hyn y mae gwlad yn ei wneud i arglwydd, yn ôl y ddihareb (5)
19. Yr aderyn urddasol cynffon liwgar ar lawnt y plas. (1,4)
22. Treiglodd cyfnod o'r dydd i'r Merched. (4)
25. Ymlafnio, a hynny'n aml yn ofer. (7)
27. Boi sy yn casglu gwybodaeth yn gyfrinachol. (5)
29. Cewch hwn cyn 11 Ar Draws (5)
30. Tueddiad lastigol! (7)
31. Y gŵr cyntaf yn murmur i newid er gwell. (5)
32. Gorchest sy'n medru bod yn afiechyd llesg. (5)

I LAWR

2. Gair byr. (5)
3. Ai i weithio ar y fferm yn syth o'r ysgol. (4,3)
5. "Yr ---- Olaf". Nofel Llwyd Owen, 2007. (5)
6. Mae plant yn ----- eu harwyr. (7)

7. I'w droi efo'ch llaw dde i gael mynediad. (5)
8. Cam yn y de. (5)
9. Nid lle i ymolchi, ond lle i wneud arian. (5)
14. "Pwy ---- dy gariad, Llanc ifanc o Lŷn?" (4)
16. Chwilen goch a smotiau duon yw'r un gota. (4)
18. Taclau miniog i gadw'r wyneb yn daclus a llyfn. (7)
20. Coron amdani; yn yr Eisteddfod Genedlaethol beth bynnag. (7)
21. Llythyr modern, ond nid o'r llythyrdy! (1-4)
23. "Nid --- -- popeth melyn". (3,2)
24. Gwasg menywod Cymru, yn Aberystwyth. (5)
26. Mae disgwyl fel hyn yn ddisgwyl ymlaen yn eiddgar amdano. (5)
28. Mae tic-tac yn hyrwyddo hyn ar gae rasmus ceffylau. (5)


ATEBION CROESAIR MEDI 2012

AR DRAWS 1. Gwern; 4. Caban; 8. Erw; 9. Ai am fy meiau; 10. Didolwr; 12. Seddau; 13. Diweddu;

14. Aethost; 17. Undeb; 19. Edifaru; 21. Americanaidd; 23. Llun; 24. Truan; 25. Tatws.

I LAWR 1. Gwaed; 2. Efa; 3. Nofelydd; 4. Camwri; 5. Brics; 6. Neuadd Goffa; 7. Dwy bunt;

11. Diwydiant; 13. Deuswllt; 15. Eliffant; 16. Herian/heriwn; 18. Brefu; 20. Urddas; 22. Allt.



Yr unig gamgymeriad amlwg y tro hwn oedd "teulu". Anagram o'r gair "antur" oedd yr ateb cywir sef "truan". Ar wahan i hynny, roedd yr atebion i gyd yn hynod gywir gydag ymdrechion perffaith gan y canlynol: Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Tregarth; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Elfed Evans, Karen Williams, Llanllechid; Gareth W. Jones, Bow Street; Donna Coleby, Penwortham; Gwyneth Morris, Gerlan; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Jean Hughes, Talybont; Gwyneth Jones, Glasinfryn; Linda Jones, Heulwen Evans, Jean Vaughan Jones, Dilys Parry, Rhiwlas. Da iawn wir. Ond yr un sy'n mynd â hi y tro hwn yw Mr. E.E. Roberts, Frondeg, Llanberis, Caernarfon, LL55 4HR. Llongyfarchiadau.

Atebion erbyn dydd Mercher 31 Hydref i "Croesair Hydref", Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD.

Enw:

Cyfeiriad:

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes

Harry Cropper

Mae hanes Harry Cropper yn dechrau yn 34 (neu 35) Stryd Tanybwllch, Mynydd Llandygái, lle'r oedd teulu Annie Lloyd Evans wedi ymgartrefu ar ôl symud i'r ardal o Lanberis (a symud eto ymhen amser i rif 12 yr un stryd). Ym Mangor y daeth Annie a Henry Cropper (er mai wrth yr enw Harry yr adnabyddid ef) ar draws ei gilydd gyntaf. Aeth y ddau i fyw i Bolton ar ôl priodi ac yno y ganed eu mab, Harry, ym 1920.

Gadawodd Harry Cropper yr ysgol yn gymharol ifanc ac aeth i weithio i'r melinau gwlan yn ardal Bolton. Ond pan fu farw ei dad ym 1937, a Harry'n 17 oed, penderfynodd ei fam symud yn ôl i'w chynefin ym Mynydd Llandygái, gyda'i mab a'i merch, Nancy. Symudodd y teulu bach ymhen ychydig i Ffordd Farrar ym Mangor ond nid cyn i Harry ddod yn ffrindiau â merch ifanc ddel o'r enw Beryl o Stryd Tanybwllch. Pan dorodd y Rhyfel, ymunodd Harri â'r Llu Awyr a gwelodd frwydro yn anialwch yr Aiff. Bu'n llythyr drwy gydol y cyfnod y bu oddi cartref gyda'i ffrind Beryl ac wedi iddo ddychwyld, datblygodd eu cyfeillgarwch i fod yn garwriaeth a arweiniodd at eu priodas yn Eglwys St Ann ym 1946. Ymsefydlodd y ddau yn 12 Tanybwllch, a fu'n gartref iddynt am flynyddoedd; yno maes o law y ganed eu dwy ferch, Ann a Jean (ac rwy'n hynod ddiolchgar i Jean am roi i mi amlinellid o hanes ei thad).

Bu Harry'n gweithio yn Chwarel y Penrhyn am rai blynyddoedd yn y 1940au, gan ddod yn aelod arbennig o dîm llwyddiannus y Penrhyn Quarry – a dyma pryd y daeth i sylw cefnogwyr pêl-droed o bell ac agos. Pe bai wedi dewis gadael yr ardal, mae'n debygol y byddai wedi

dod yn enw mawr – ac yn ddydd cyfoethog – ym myd y bêl-droed ond aros yma a wnaeth Harry a gwneud enw iddo'i hun gyda'r Penrhyn Quarry. Yna lledaenodd gwybodaeth am ei ddoniau a chafodd ei ddewis i fod yn flaenwr yn nhîm Gogledd Cymru yn erbyn tîm amatwr Queen's Park, Glasgow, Mehefin 7 1947. Roedd 10,212 o bobl yn gwyllo'r gêm honno yn Ffordd Farrar, Bangor, a derbyniwyd ychydig dros £1131 wrth y giât. Harry a ddechreuodd y symudiad ac a roes y bas derfynol i sgoriwr y ddwy gôl i drechu'r Albanwyr. Chwaraeodd hefyd yn nhîm Arfordir Gogledd Cymru yn erbyn tîm Cynghrair Pêl-droed yr Alban ar gae Bangor, Mai 1 1948.

Wedi rhoi'r gorau i'w waith yn y Chwarel, trodd Harry'n ddydd insiwrans, yn gweithio i gwmni Pearl ac yn cerdded i bob man wrth ei waith. Yna, bu'n gweithio i gwmni'n gwerthu offer trydan ym Mangor. Er iddo fyw a gweithio yn y cyffiniau hyn er pan oedd yn oedd yn llanc ifanc, ni ddysgodd Harry erioed siarad Cymraeg ond, yn ôl Jean, ei ferch, roedd yn deall pob gair.

Ym 1976, collodd ei briod, Beryl, a fu'n ergyd drom iawn iddo, a thros flynyddoedd ei weddwod, ni fu'n brin o gymorth a chefnogaeth Ann a Jean a'u teuluoedd, gan wneud ei gartref y drws nesaf i Jean a'i theulu ym Mhenrhosgarnedd, Bangor. Mwynhâi arddio a threuliai lawer iawn o'i amser gyda'i deulu a chydai'i wyrion, gan feddwl y byd ohonynt bob un.

Roedd Harry Cropper yn wŷr bonheddig, yn dawel a diymhongar, ac yn anaml y clywid ef yn sôn am ei gampau ar y cae pêl-droed.

Ddydd Mercher, Mai 9, yn dawel yn Ysbyty Eryri, Caernarfon, bu farw Harry Cropper yn 91 oed. Claddwyd ef gyda'i briod, Beryl, ym Mynwent St Ann, Mynydd Llandygái, yng ngolwg Chwarel y Penrhyn a heb fod ymhell o'r cae pêl-droed lle bu'n eilun i laweroedd o'i edmygwyr.

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

Cyfarfod Blynyddol Llais Ogwan

yng Nghanolfan Cefnfaes
Nos Fercher
21 Tachwedd
am 7.30 yr hwyr
Croeso Cynnes i Bawb

Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

Nos Lun 12 Tachwedd
yn Festri Capel Jerusalem,
Bethesda am 7.00 o'r gloch

Rhys Mwyn
Hanes Canu Pop Cymraeg yn y Trefi
Chwaryddol

£1.50 wrth y drws neu am ddim i aelodau.

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

Paned a Sgwrs
Caffi Fitzpatrick 11.00 – 12.00
Dydd Sadwrn cyntaf pob mis
Peint a Sgwrs
Douglas Arms Bethesda
20.00 – 21.00
Trydydd Nos Lun pob mis

NEUADD OGWEN BETHESDA GYRFA CHWIST

23 a 30 Hydref
13 Tachwedd
am 7 o'r gloch

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr

NEUADD OGWEN, BETHESDA

BOREAU COFFI



20 Hydref: Capel Jerusalem
27 Hydref: Sioe Amaethyddol D.Ogwen
03 Tach. Caban Gerlan
10 Tach. Eglwys Glanogwen
17 Tach. NSPCC
24 Tach. Llais Ogwan

(Bob bore Sadwrn am 10.00 o'r gloch)

THEATR BARA CAWS yn cyflwyno Llanast!

Cyfieithiad Gareth Miles o 'Le Dieu de Carnage'
gan Yasmina Reza

Dau bâr o rieni diwylliedig yn cwrdd i drafod eu plant anystywalit. Cyn hir mae chwarae'r oedolion yn troi'n chwerau ac mae'n llanast go iawn yn y llofa! Drama ddoniol a deifiol.
Gyda: Emlyn Gomer, Rebecca Harries, Lauren Phillips a Llion Williams.
Canllaw oed: 14+

7.45pm Tachwedd 29, 30 a Rhagfyr 1
Theatr Bara Caws, Uned A1,
Stad Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon.
Tocynnau: 01286676335/ 01286675869

Rhag-hysbysiad Cynhelir GWASANAETH NADOLIG CYMUNEDOL YNG NGHAPEL JERUSALEM, BETHESDA NOS SUL, 23 RHAGFYR, 2012

am 7 o'r gloch

Yn anffodus, ni fydd Côr y Dyffryn yn medru cyflwyno eitemau eleni oherwydd bod eu harweinydd, Mrs. Menai Williams, wedi derbyn llawdriniaeth. Gobaith Menai, fodd bynnag, yw y bydd yn gallu ymarfer y carolau cynulleidfaol gyda'r Côr rhyw bythefnos cyn y gwasanaeth.
Dymuna aelodau Côr y Dyffryn adferiad llwyr a buan i Menai.



10 Tachwedd Marchnad Cynnyrch Lleol Festri Capel Jerusalem Bethesda 10.00 – 2.00

Stondinau yn gwerthu pob math o nwyddau o safon uchel:- llysiau a ffrwythau, cacennau, siocled, caws, bara, cig, cardiau, Gwaith Llaw, Crefftau, Planhigion, Dillad wedi eu gwau, Gemwaith, a llawer mwy.

“Mae'n werth galw draw”

www.facebook.com/marchnad-cynnyrch-lleol-ogwen-local-produce-market

EISTEDDFOD GADEIRIOL DYFFRYN OGWEN

Nos Wener, Tachwedd 16
6-30pm yn Neuadd Ogwen
Seremoni'r Orsedd, cystadlaethau'r corau,
unawdau lleisiol ac offerynnol
a chystadleuaeth i ysgolion uwchradd-

Llu o gystadleuwyr yn eich aros!!

Dydd Sadwrn, Tachwedd 17
10am Ysgol Dyffryn Ogwen
Gwledd o gystadlaethau cynradd –
canu, llefaru, dawns, celf a chreffft

Dewch yn lluu!!!

Neuadd Ogwen

Aelodau o'r Bwrdd Rheoli

Mae Cwmni Tabernacl wedi derbyn grant syweddol i adnewyddu Neuadd Ogwen, er mwyn creu canolfan gelfyddydol gymunedol o'r safon uchaf. Bydd y Neuadd yn cael ei rheoli gan Fwrdd o wirfoddolwyr. Mae Tabernacl yn awyddus i benodi 4 person i wasanaethu ar y Bwrdd am gyfnod o flwyddyn, gan ddechrau ym mis Tachwedd.

Os oes gennych ddiddordeb mewn dod yn aelod o'r Bwrdd, cysylltwch a Dyfrig Jones ar 07810 874882 neu dyfrigj@hotmail.com am ragor o fanylion.

Mae gan Tabernacl ddiddordeb penodol mewn penodi unigolion a phrofiad o'r celfyddydau, o fyd busnes, neu o adeiladu a phensaerniaeth.



Ocshwn

o addewidion ac eitemau eraill

Clwb Rygbi Bethesda

Nos Wener Tachwedd 9^{fed} am 7.30

Nifer fawr o eitemau arbennig, yn cynnwys:

Taith o amgylch y Senedd a phryd i bedwar gan **Alun Ffred Jones AC**

Pryd o fwyd i bedwar wedi ei goginio yn eich tŷ chi gan **Hywel Williams AS**

Bydd stondinau a raffl ar y noson

I gael copi o gatalog, cysylltwch â Dafydd Meurig:
01248 369602 - dafyddmeurig@gwynedd.net

Derbynir cynigion ymlaen llaw gan rai na all fod yn bresennol

Y BWTHYN TE pen y ceunant isaf

LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN A ADEILADWYD AR
WAELODION LLWYBR YR WYDDFA
(O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 18^{ed}. GANRIF
CEWCH GROESO ARBENNIG
YMA, YN OGYSTALA
GOLYGFYDD GWYCH DROIS
LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am.- 9pm. **BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN**
DIODYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydiau o gwbl!)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN • YN ADDAS I'R ANABL
Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286)872606

www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk

S4/C

Calon Cenedl
ers 30 mlynedd

Rhaglenni arbennig i ddathlu
pen-blwydd S4C

S4C yn 30

Atgofon y gwylwyr a chlippiâu o'r archif
ers dechrau S4C ar 1 Tachwedd 1982

Plant y Sianel


Hanes cenhedlaeth o Gymry gafodd
eu geni 30 mlynedd yn ôl

Gwynfor

Drama ddogfen am flwyddyn dyngedfennol ym
mywyd Gwynfor Evans ac yn ymgyrch y Sianel

Dechrau Canu Dechrau Canmol

Cymanfa i ddathlu'r pen-blwydd



30

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig

Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257

Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



Alun Ffred Jones

Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk



Hywel Williams

Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch af ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk

GAIR O'R DOSBARTH

Ysgol Dyffryn Ogwen

Y Noson Wobrwyo (parhad o'r dudalen flaen)

Y ddau ddisgybl a dderbyniodd wobrau am y perfformiadau TGAU gorau eleni oedd Cara Thomas ac Adam Hughes.

Cafwyd y canlyniadau lefel A gorau gan, Henri Williams a Gethin Sherrington. Enillwyr Ysgoloriaeth Dafydd Orwig eleni oedd Rhiannon O'Marah sydd bellach yn astudio Addysg ym Mhrifysgol Bangor a Gwion Williams sydd yn astudio Cymraeg ac Addysg ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Enillydd Ysgoloriaeth Cyngor Cymuned Bethesda i gofio am y Streic Fawr oedd Llinos Bolton sydd bellach yn dilyn cwrs mewn Dylunio ym Mhrifysgol Abertawe. Diolch i Mrs Mary Jones, Cadeirydd y Cyngor Cymuned, am gyflwyno'r wobr.

Y disgyblion a dderbyniodd y gwobrau am y perfformiad gorau ym mlwyddyn 7 oedd Martha Evans, Gwenllian Owen, Elin Rowlands, Sophie Williams, Elen Wyn, Steffan Davies, Owain Morgan a Tomos Griffith.

Gwobr arbennig bob blwyddyn yw Tarian Carwyn Thomas a gyflwynir gan ei rieni, Mr a Mrs Emllyn Thomas, er cof amdano. Mae'r darian yn cael ei chyflwyno i ddisgybl sydd yn gwneud cyfraniad arbennig ym maes chwaraeon, a'r enillydd eleni oedd Mari Davies, sydd, yn ogystal â chael y cyfle i gario'r fflam Olympaidd, wedi cynrychioli Cymru a Phrydain ym mhencampwriaethau hwylio'r byd dan 16.

Gwobrau Addysg Gorfforol



Steffan Davies, Fflur Puw, Lewis Hall, Manon Hughes, Elis Jones, Seirian Puw a Lowri Sherlock.

Prif Ddisgyblion



Dyma brif ddisgyblion yr ysgol am y flwyddyn : Dafydd Williams a Mari Gwyn.

Adran y Gymraeg – Dau gynllun cyffrous

Y tymor diwethaf bu'r adran yn cydweithio â'n hysgolion cynradd ar ddau gynllun dalgylchol cyffrous. Aeth criw o'n disgyblion gyda Catherine Aran a Miss Bethan Hughes (a oedd gyda ni fel darpar athrawes) i Ysgol Penybryn i gynnal gweithdy creu chwedl gyda Bl6 ar y cyd â disgyblion Bl6 Ysgol Llanllechid ac ychydig wythnosau'n ddiweddarach daeth yr awdur Bedwyr Rees (ac enillydd Y Fedal Ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012) i'r ysgol i ddechrau ar y gwaith o greu addasiad o'i lyfr "Isio Bet?" mewn gweithdy gyda disgyblion Bl5 Ysgol Bodfeurig ac Ysgol Tregarth. Gobeithiwn gwblhau'r ddau gynllun yn ystod y tymor hwn ac yna rhannu'r gwaith da a grëwyd.



Catherine Aran gyda rhai o'r disgyblion.

“Hei Hogiau Mawr 2012” gan Manon Hughes Bl9

Ym mis Medi daeth Catrin Mara a Dyfrig Evans i'r ysgol ar ran Hei Hogiau! sef prosiect a drefnwyd gan Tŷ Newydd a chynllun Hyrwyddo Gwynedd. Criw o actorion yn actio darnau diddorol gan awduron gwerth chweil yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Cyflwynodd Catrin a Dyfrig bum nofel, dwy yn y Gymraeg a thair yn Saesneg. Y llyfr cyntaf oedd “Socks Are Not Enough” gan Mark Lowery, mae'n sôn am drafferth bachgen tair ar ddeg yn methu deall pam fod ei rieni yn dewis byw eu bywydau heb wisgo dillad. Mae ei rieni yn penderfynu ei yrru i gael sgwrs gyda seicolegydd er mwyn iddo gael deall pam fod ei rieni yn penderfynu treulio'u bywydau yn noeth. Mae'n stori ddoniol iawn ac yn edrych yn ddiddorol iawn. Rwyf yn edrych ymlaen yn fawr iawn i gael ei darllen dros yr wythnosau nesaf.

Yr ail lyfr oedd “Prism” gan Manon Steffan Ross. Mae'n stori glyfar ac anturus iawn yn sôn am drafferthion bachgen o'r enw Math sy'n dioddef o awtistiaeth. Mae brawd Math yn darganfod neges ar we bost ei fam yn dweud na all warchod yr hogiau dros y gwyliau gan fod Math yn ormod o drafferth felly mae brawd Math yn penderfynu rhedeg i ffwrdd er mwyn i'w fam gael mynd ar wyliau gyda'i ffrindiau. Darllenas i y llyfr yma dros wyliau'r haf ac mi wnes ei fwynhau yn fawr iawn. Rwyf wedi darllen llawer iawn o lyfrau Manon Steffan Ross ac mae hi'n un o fy hoff awduron.

“Gangsta Granny” gan David Walliams oedd y trydydd. Mae'n stori ddoniol dros ben ac yn debyg iawn i waith Roald Dahl. Mae Ben, bachgen un ar ddeg, yn casáu mynd i aros at ei nain bob nos Wener. Ond un nos Wener mae nain Ben yn dweud cyfrinach enfawr wrth Ben, y ffaith ei bod hi'n lladron gemau, ac mae'n gofyn i Ben os ydi o eisiau ei helpu hi i ddwyn gemau'r Frenhines. Nid wyf yn hoff iawn o lyfrau fel hyn fel arfer, ond daeth Dyfrig a Catrin â'r stori'n fyw ar y diwrnod.

Nofel fer gan Rhiannon Wyn oedd nesaf, “Yr Alarch Du”. Rwyf newydd brynu'r llyfr yma ac rwy'n edrych ymlaen yn arw at ei ddarllen dros hanner tymor. Stori ddwys a chyfrinachol yw'r nofel hon. Mae'n sôn am berthynas Catrin a'i thad, ei chariad a'i chyn-gariad. Cafwyd cyflwyniadau doniol a hwylio gan yr actorion i gyd a diolch iddynt am yr hwyli a'r ysgogiad i ddarllen mwy!

Ysgol Abercaseg

Agoriad Swyddogol 'Clwb Gwarchod Ysgol Abercaseg'

Ar 26 Medi, bu i'r Aelod Seneddol, Hywel Williams ymweld â'r ysgol yn gyntaf i longyfarch y staff a'r disgyblion ar lwyddiant ysgubol yr ysgol yn yr Arolwg Estyn, a hefyd i agor yn swyddogol y clybiau gwarchod. Roedd Mr Williams yn canmol yr ysgol am ymateb i alw gan rieni am ofal yn ystod y dydd ar safle'r ysgol.

Gall unrhyw blentyn sy'n dair oed fynychu'r 'clwb cinio' (11am-1pm) 'y clwb prynhawn' (1-3pm) a'r 'clwb ar ôl ysgol' (3-6pm) sydd wedi'u lleoli ar dir yr ysgol, gyda'r ffocws ar ddatblygu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a chwricwlwm 2008. Mae'r clybiau i gyd wedi'u cofrestru gyda'r AGGCC.



Yn y llun mae Hywel Williams AS, Cyng Ann Williams, Marion Mayhead (Arweinydd y Clwb), Kathryn Davies (Cymhorthydd) Sioned Hywel Thomas (Pennaeth Ysgol Abercaseg) a rhai o'r plant sy'n mynychu'r clybiau.

Ymgyrch 'Wythnos Cymru Daclus'



Bu grŵp 'Bystedd Gwyrdd' yr ysgol yn brysur iawn rhwng 17 a 23 Medi yn casglu sbwriel o amgylch Bethesda fel rhan o'r ymgyrch genedlaethol 'Wythnos Cymru Daclus'. Roedd y plant yn awyddus i ddangos, mewn ffordd ymarferol, eu hawydd i ddatblygu mannau glân a diogel yn y pentref. Da iawn chi.

Rhodd Ariannol

Diolch yn fawr i 'Londis' Bethesda am y rhodd ariannol hael i'r ysgol. Rydym yn gwerthfawrogi eich caredigrwydd a byddwn yn gwario'r arian yn ddoeth.

'Cyfeillion Ysgol Abercaseg'

Cynhelir cyfarfod cyntaf y flwyddyn o 'Cyfeillion yr Ysgol' am 6:30pm nos Fawrth, 23 Hydref. Mae'r 'Cyfeillion' yn griw o rieni brwdfrydig a gweithgar sy'n cynnal gweithgareddau i godi arian i'r ysgol. Byddent yn falch iawn o groesawu aelodau newydd yn arbennig rhieni newydd yr ysgol.

Disgo Gwisg Ffansi

Cynhelir y Disgo Gwisg Ffansi i ddisgyblion yr ysgol, nos Iau, 25 Hydref rhwng 5:30-6:30pm. Mae'r pris mynediad yn £1. Dyma uchafbwynt y flwyddyn i lawer o'r disgyblion ac mae'n destun trafodaeth am wythnosau i ddilyn!!

Ailgylchu Dillad

Cofiwch fod croeso i unrhyw un o drigolion Bethesda ddod â'u dillad i'w hailgylchu i'r ysgol. Mae'r bin ailgylchu wedi ei lleoli wrth ddrws y brif fynedfa.

Ysgol Tregarth

Taith Gerdded

Diolch i bawb a gefnogodd y daith gerdded noddedig yn ddiweddar. Braff oedd cael cyfle i gymdeithasu gyda phlant a rhieni wrth fynd am dro o amgylch y pentref. Diolch hefyd i rieni'r Ysgol Feithrin am gefnogi. Diolch o galon i Mrs Jones, Fiona, a Glynys am eu holl waith yn y gegin. Roedd 'na alw mawr am y sglodion a'r cŵn poeth!

Twm Morys

Daeth Twm Morys i adrodd chwedlau Cymraeg i Dosbarth Ffrydlas. Dywedodd stori Arthur a chwedl Mynydd Wyddfa. Adroddodd stori'r Titanic ac am glo De Cymru. Roedd o'n dweud llawer o bethau doniol ac yn gweiddi dros y lle. Gwnaeth i pawb chwerthin. Gan Aran.

Cwmni Dawns Fidget Feet

Bu Cwmni Dawns Fidget Feet yn cynnal gweithdy dawns gyda plant Dosbarth Ffrydlas. Roeddem ni yn gweithio gyda partnertiaid ac yn dawnsio fel blaidd neu hygan fach goch. Cawsom gyfle i greu dawns hwyl gyda'n gilydd. Cawsom llawer o hwyl. Gan Nicole a Gwilym

Wythnos Siapaneaidd

Roedd yna fwrllwm yn llenwi'r ysgol yn ddiweddar fel rhan o'n dathliadau Siapaneaidd. Lanswyd ein cysylltiadau gydag Ysgol Shioumoura, Siapan a bu'r plant yn brysur yn dysgu am y wlad a rhai o'i thraddodiadau yn ystod yr wythnos. Ymysg pethau eraill cafwyd cyfle i wneud origami, paratoi sushi a chreu masgiau. Diolch yn fawr iawn i Rachel Luxton, Glynys a Derek, Gwenda, Ela, Beca a Yukki am roi o'u hamser i sicrhau wythnos lwyddiannus iawn. Diolch hefyd am gefnogaeth yr Ysgol Siapaneaidd ym Mangor.



Dyma'r plant wrthi'n brysur yn creu rhyfeddoda



Canlyniad eu gwaith caled

Ysgol Bodfeurig

Taith Gerdded



Diolch i bawb a fu'n cymryd rhan yn nhaith gerdded yr ysgol yn ddiweddar. Daeth llawer o blant, rhieni a chyfeillion yr ysgol ar daith braf o amgylch y pentref. Rydym yn edrych ymlaen at ddefnyddio'r arian i brynu rhywbeth arbennig ar gyfer yr ysgol.

Dawnsio



Roedd plant yr adran iau wrth eu boddau pan ddaeth dawnswraig broffesiynol i'r ysgol i roi gwrs ddawns iddynt. Cafodd pawb amser gwych yn creuawns yn seiliedig ar chwedlau a straeon gwahanol. Diolch i Cat am ein dysgu!

Gwersi Recorder

Mae disgyblion blwyddyn 4, 5 a 6 yn brysur iawn y tymor hwn yn dysgu chwarae offeryn newydd sef y recorder! Mae pawb wrth eu bodd yn dysgu nodau a chaneuon newydd bob wythnos gyda'n hathrawes, Mrs Jane Parry. Rydym yn edrych ymlaen at gael perfformio yn y gwasanaeth yn fuan.

Cyngor Ysgol a Chyngor Gwyrdd

Llongyfarchiadau i blant yr ysgol a etholwyd ar y cyngor ysgol a'r cyngor gwyrdd. Byddant yn brysur yn ystod y flwyddyn yn gwneud llawer o bethau i helpu'r ysgol a'r gymuned leol.

Ysgol Rhiwlas

Tymor Newydd

Wel mae wedi bod yn fis prysur iawn yn Ysgol Rhiwlas yn ystod mis Medi ac mae'r plant newydd wedi setlo i mewn yn dda iawn. Dechreuodd y clybiau ar ôl ysgol ac mae'r gefnogaeth wedi bod yn dda iawn – yn enwedig i Aelwyd yr Urdd.

Croesawu Prifardd

Bu'r Prifardd Twm Morus yn yr ysgol er mwyn gweithio gyda phlant y dosbarth iau ar farddoniaeth am eu hardal leol, a chawsant gryn hwyl arni gan holi rhieni a neiniau a theidiau am hanes y camp ac yn y blaen!

Gŵyl Afalau

Cafodd y plant focs o afalau fel gwobr am y nifer mwyaf o blant o unrhyw ysgol a fynychodd yr Ŵyl afalau ym Mhrifysgol Bangor. Daeth yr actor Dyfan Roberts i'r ysgol i gyflwyno'r wobr i'r plant – dim esgus rwan dros beidio â bwyta'n iach!

Diwrnod Heddwch Rhyngwladol

Bu'r plant hefyd yn datlu diwrnod heddwch rhyngwladol ar 21 Medi – buont yn gwneud gweddïau a gwaith celf sydd yn cael ei arddangos y tu allan i'r ysgol – croeso i chwi daro golwg arno wrth basio!!

Tri Mochyn Bach

Mae'r plant bach wedi bod yn brysur yn astudio hanes y tri mochyn bach ac wedi bod yn cerdded o gwmpas y pentref yn edrych ar dai gwahanol.

Gweithdy Trydan

Cafwyd ymwelwyr o Magnox i wneud gweithdy ar drydan hefo'r plant – gweithiodd yr adran iau ar brosiect tyrbîn yn y prynhawn tra bu'r babanod yn dysgu am ddiplad iechyd a diogelwch a pheryglon trydan.

Ysgol Llanllechid

Ffair Hydref

Cafwyd Ffair Hydref lwyddiannus iawn eto eleni yn Ysgol Llanllechid. Daeth nifer fawr o rieni, disgyblion, staff a chyfeillion yr ysgol i fwynhau diwrnod o hwyl a sgwrsio. Bu'r Gymdeithas Rieni'n tu hwnt o brysur unwaith eto, yn trefnu'r cyfan mor drylwyr, dan arweiniad Mrs Iona Robertson a Mrs Lowri Roberts, a llwyddwyd i godi bron i £2000! Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n helpu ac i drigolion yr ardal am eu haelioni a'u cefnogaeth.

Diwrnod Groegaidd

Fel rhan o'u thema ar wlad Groeg, cafodd plant dosbarth Blwyddyn 3 ddiwrnod Groegaidd yn yr ysgol. Roedd y plant wedi gwisgo fel cymeriadau o'r hen chwedlau Groegaidd yn ogystal â fel teithwyr cyfoes ar eu gwyliau yn yr haul! Roedd digon o gerddoriaeth a dawnsfeydd Groegaidd yn cael eu perfformio, yn ogystal a chelfyddyd Groegaidd. Roedd baneri glas a gwyn ymhobman, a gwledd o fwydydd Groegaidd i'w blasu. Dim ond gobeithio na fu'r plant yn torri platiau ar ddiwedd y dydd!!

Teithiau'r Dosbarth Derbyn

Bu'r Dosbarth Derbyn ar eu taith i ganolfanau diddorol iawn yn ystod yr wythnosau diwethaf fel rhan o'u gwaith ar 'bobol sy'n ein helpu'. Cawsant groeso mawr ym Meddygfa'r Hen Orsaf gan staff y dderbynfâ, yn ogystal a chan y Nyrs, y Meddyg, y Deintydd a'r Ciropodydd. Cawsant brofiadau gwych yn gweld yr adeilad bendigedig, a chael dysgu am yr offer gwych sydd yno. Diolch i bawb am y cyfle!

Roedd croeso cynnes iawn yn eu haros yn yr orsaf dân ym Mangor hefyd, pan gawsant gyfarfod rhai o'r swyddogion tân, a chael mynd i'r injan dân, gwisgo'r hetiau, gweld yr offer a gafael yn y pibellau dŵr anferth. Diolch o galon am y croeso!

Gwefreiddiol!

Aeth disgyblion dosbarthiadau Blwyddyn 2 i grombil y 'Mynydd Gwefru' yn Llanberis yn ddiweddar. Syfrdanwyd y plant [a'r oedolion] gan yr holl dwneli a'r peiriannau a oedd yn guddiedig ym mherffedion y mynydd a cafodd pawb hwyl a sbri yn gwisgo helmedau cochion wrth deithio yn y bws o dan y ddaear! Diwrnod i'w gofio!

Sioe Asiantaeth Fwyd

Cafwyd cyflwyniad llwyfan hynod o ddifyr gan actorion oedd yn gysylltiedig â'r Asiantaeth Fwyd Genedlaethol. Cafodd y plant fodd i fyw wrth weld Proffesor Puw a Proffesor Huw yn mynd drwy'u pethau, ac ar yr un pryd, roeddent yn dysgu am y ffyrdd gorau o ofalu am ein bwyd, a glanweithdra'r gegin.

Hwyl yn y Dilyw!

Mae'n bwrw hen wragedd a ffyn! Dyna ddiflas! Ond na,- mae rhai o blant ieuengaf ysgol Llanllechid yn cael andros o hwyl yn eu 'pwll padlo' newydd, naturiol! Wellingtons a siwtiau glaw, ac allan a nhw i ymchwilio beth sydd yn suddo a beth sy'n arnofio. Profiadau cyffrous iawn!



Ein Grŵp Bach wedi bod yn brysur yn creu tai gyda Mrs Lynne a Ms Awen.

OWEN'S TREGARTH

Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260

07761619475

pandv.owen@btinternet.com

Tony Davies

Plymio a Gwresogi

Tŷ Capel Peniel, Llanllechid
Rhif Corgi 190913

Symudol 078184 10640

01248 601 466

WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieinaidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau
yng Nghanolfan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Fercher
6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch
â'r hysbyseb hwn hefo chi

◆ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ◆

Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio'r dosbarth

Tudur Owen, Roberts, Glynne a'u cwmni



DEWCH I WELD
EICH
CYFREITHIWR
LLEOL

SGWÂR BUDDUG
STRYD FAWR
BETHESDA
GWYNEDD
LL57 3AG

BETHESDA
01248 600171
torgbethesda@hotmail.co.uk

Cyfreithwyr

Y CYNGOR CYNTAF
AM DDIM

EWYLLYSIAU A
PHROFIANT

SYMUD Tŷ

Copa

Siop Trin Gwallt ym Methesda

Arbenigwyr mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.

Oriau agor:

Dydd Mawrth 9.00 tan 8.00
Dydd Mercher 9.00 tan 5.00
Dydd Iau 9.00 tan 5.00
Dydd Gwener 9.00 tan 8.00
Dydd Sadwrn 8.00 tan 4.00

Ffôn: 01248 600094

Sefydlwyd

1969

m.hughes a'i fab

CONTRACTWYR TOI

2 Hen Aelwyd, Bethesda

600633

(symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.

Tony
Two me y

Peintiwr ac
Addurnwr
Trwyddedig

Gwneir unrhyw waith,
mewnol ac allanol.

Ffôn Symudol:
07796 156829
Tŷ: 01248 602039



SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Malinda Hayward (Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnio
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

L. Sturrs a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953
Ffacs: 602571
lsturrs@googlemail.com

Clwb Criced a Bowlio Bethesda Trefnu Parti?

Pen-blwydd? Ymddeoliad? Bedydd?
neu unrhyw achlysur arall

Ystafell ar gael i'w llogi

Telerau i'w trafod: 600 833

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
logsi coed

01248 605207

"J.R."

SGAFFALDWYR

Yr Iard, Ffordd Stesion
Bethesda

Ffôn: (01248) 601754
Dyma ni - sgaffaldwyr o fri

Chwaraeon

Pêl-rwyd

Diolch:

Fe hoffai dim pêl rwyd Bethesda ddiolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i'w cefnogi i godi arian at y clwb yn y sioe ffasiwn ar y 27 Medi.

Diolch yn ogystal i fusnesau lleol Bethesda am eu cyfraniadau i'r raffl. Diolch i; Copa, Serena, Plas Ffrancon, Londis, Tesco, So Chic, The Greedy Pig (Bangor), Y Llangollen ac i Eirian yn Mabinogion am eu rhoddion caredig iawn. Rydym wir yn eu gwerthfawrogi.

Diolch hefyd i Dilwyn am gael cynnal y noson yn y Clwb Criced ac i Carys o *So Chic* am sioe ffasiwn werth chweil. Dwi'n siŵr fod pawb a oedd yno yn cytuno bod y genod yn edrych yn 'Chic' iawn yn y dillad!

Fe fydd yr arian a gasglwyd ar y noson yn mynd tuag at sicrhau bod y clwb yn parhau i redeg ym Methesda.

Diolch eto

Genod Clwb Pêl-rwyd Bethesda



Dyma ferched y tîm pêl rwyd

Pencampwriaeth Torri Coed

Dros nifer o flynyddoedd bellach bu cynnydd sylweddol yn y gamp o gystadlu torri a thrin coed, mewn sioeau amaethyddol, lleol a chenedlaethol a hefyd yng ngwyliau trin coed fel y Woodfest yn Llanelwy.

Dau o'r ardal sydd wedi gweithio'n galed ar y grefft yma yw Andrew Evans o Ffordd Bangor a Bill Huaki o Sling. Cychwynnodd diddordeb y ddau gyda thîm Bwyellwyr Gwynedd yn lleol tua 12 mlynedd yn ôl. Mae'r Clwb yn dal yn ei fri.

Erbyn hyn mae'r ddau wedi ymestyn eu gorwelion ac wedi teithio ledled y byd yn cystadlu. Buont yn rhan o dîm Sthil Timbersports Prydain nifer o weithiau, Andrew wedi cystadlu yn yr Almaen yn 2007, Awstria yn 2008 ac ym mhencampwriaeth Ewrop lle y daeth y tîm yn drydedd.

Yna o 2010 bu'r ddau'n cystadlu fel rhan o'r tîm ym Mhencampwriaeth y byd yn Awstria yn 2010, y Swistir yn 2011 ac eleni yn Lillehammer, Norwy, lle daeth y tîm yn 8 fed. Yr hen 'All Blacks' yn ennill eto. Ymdrechodd 24 o dimau i gyd dros dridiau o gystadlu a hynny o flaen torf o dros 3500 a chafodd y gystadleuaeth ei dangos ar deledu Eurosports. Mae 4 rhan i'r gystadleuaeth sef, Single saw, ac yn y grefft hon y bu Andrew yn cystadlu, Standing Block, Underhand a Stock saw, hon yw prif gystadleuaeth Bill. Yn ei gystadleuaeth ef, fe lifiodd Andrew'r blocyn 18 modfedd o drwch mewn 18 eiliad. Llif yw hon sy'n chwe throedfedd a dwy fodfedd o hyd.



Andrew Evans o Ffordd Bangor



Bill Huaki o Sling

Fe gwblhaodd y tîm eu rhan hwy mewn munud ag un deg pedwar eiliad, 10 eiliad yn arafach na'i gwrthwynebwyr o Seland Newydd. Dywedodd Spike Milton, capten y tîm. "wrth gwrs ei bod yn siom colli, ond os oedd rhaid colli allwn ni ddim cywilyddio gan i dîm cryf Seland Newydd ennill y bencampwriaeth gydag Awstralia yn ail".

Mae'r ddau wedi teithio yn o helaeth ym Mhrydain a'r byd ac ar ddechrau'r flwyddyn 'roedd Bill yn cystadlu ym mhencampwriaeth North Island, yn Seland Newydd. Cafodd Andrew'r profiad o gystadlu yn y chwaer gystadleuaeth sef y South Island yn 2006. Eleni hefyd cafodd Bill hwyl mewn cystadleuaeth yn Sioe Cymru yn Llanelwedd. Mawr yw diolch Andrew am gydweithrediad ei gyflogwr B.T. a hefyd i Teiars Gwynedd sy'n noddi'r tîm. Wrth ddwyn rhai atgofion, mae Andrew'n cofio dros 10,000 o dorf yn yr Almaen, llawer eraill wedi eu troi i ffwrdd oherwydd diffyg lle. "Mae cystadlu brwd a diddordeb mawr o fewn gwledydd Ewrop," meddai.

Pob hwyl i'r ddau yn y dyfodol. Os ydych am i rywun dorri coed tân i chi dros y gaeaf, dyma'r ddau i gysylltu â nhw!